

Cyngor Celfyddydau Cymru

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol - Diweddariadau 2017 – 2021

## Adroddiad Diweddaru Rhagfyr 2017

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, Arwyddeg Prydain, Hawdd eu Darllen ac ar awdio. Ceisiwn ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu Polisi Cyfle Cyfartal.

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| Cyflwyniad | | 2 |
| Amcan Cydraddoldeb 1:<br>Ymgysylltu, ymgynghori, porthi, annog ac ymherio a herio ein partneriaid yn weithredol | | 3 |
| Amcan Cydraddoldeb 2:<br>Datblygu gweithlu sy'n adlewyrchu'n well amrywiaeth Cymru | | 6 |
| Amcan Cydraddoldeb 3:<br>Gwella cynrychiolaeth ym maes llywodraethu sefydliadau celfyddydol | | 15 |
| Amcan Cydraddoldeb 4:<br>Cynyddu amrywiaeth Cynulleidfaoedd y Celfyddydau | | 17 |
| Amcan Cydraddoldeb 5:<br>Cynyddu amrywiaeth yr ymgyfranogwyr o'r Celfyddydau | | 20 |
| Atodiad 1<br>Gender and equality statistics | | 24 |
| Atodiad 2 | | 33 |
| Amcan Cydraddoldeb 2: | Data am y Gweithlu - Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru | 33 |
| Amcan Cydraddoldeb 3: | Arolwg Proffil Celfyddydau Cymru - Byrddau Rheoli | 34 |
| Amcan Cydraddoldeb 4: | Mewnwelediad Cynulleidfa - Hynt | 35 |
| | Arolwg PCC - mynychiadau mewn digwyddiadau wedi'u targedu | 37 |
| Amcan Cydraddoldeb 5: | Arolwg PCC - Ymgyfranogi Plant a Phobl Ifanc | 41 |
| | Cyffredinol | 42 |
| Atodiad 3<br>Data'r Loteri | | 43 |


*Clawr blaen:* Perfformiwr/bît-bocsiwr/dylunydd sain, Danial Bawthan
Comisiwn Heb Ffiniau *'And Suddenly I Disappear: The Singapore/UK 'd' Monologues'* a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru a The British Council, a ysgrifennwyd gan Kaite O'Reilly ac a gyfarwyddwyd gan Phillip Zarrilli (llun: Wesley Loh (Lluniau Memphis West).

# Cyflwyniad



Y diweddariad hwn yw'r cyntaf o'n hadroddiadau chwe misol newydd sy'n dadansoddi sut mae Cyngor Celfyddydau Cymru, y sefydliadau sy'n rhan o Bortffolio Celfyddydol Cymru a ariennir yn rheolaidd a'r sector celfyddydau ehangach yng Nghymru yn perfformio yn erbyn y targedau a nodir yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2017-2021 (a gyhoeddwyd ym mis Mai 2017).

Yn ein Cynllun, gosodwyd set o dargedau heriol i ni ein hunain ac i'r sefydliadau sy'n rhan o Bortffolio Celfyddydol Cymru, a fydd yn sail i'n gwaith ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, a fydd yn parhau i fod yn un o'n prif flaenoriaethau strategol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Fel y gwelwch o'r adroddiad, mae llawer i'w ddathlu. Mae'r gwaith datblygu wedi'i dargedu a gyflawnir gan ein staff, mewn partneriaeth â sefydliadau allweddol yn y sector diwylliannol a'r sector gwirfoddol yng Nghymru, yn parhau i dalu ar ei ganfed. Er enghraifft, mae ein rhaglen bartneriaeth gydag Age Cymru a Sefydliad Baring - cARTrefu Cymru - yn cyrraedd nifer sylweddol o bobl hyn sy'n aml wedi'u heithrio o'r celfyddydau; mae cynllun cerdyn mynediad Hynt i bobl anabl wedi cyrraedd bron 10,000 o aelodau ar draws 40 o leoliadau; ac mae'r rhaglenni Camau Creadigol a Heb Ffiniau yn parhau i gefnogi datblygiad creadigol nifer o artistiaid talentog iawn a chanddynt anableddau neu sy'n dod o gefndiroedd BAME a sefydliadau celfyddydol sy'n cael eu harwain gan bobl anabl a BAME.

Wedi dweud hynny, mae ffordd bell i fynd o hyd i gyrraedd rhai o'n targedau allweddol. Mae data gweithlu Portffolio Celfyddydol Cymru ar gyfer 2016/17 yn dangos bod y sector yn parhau i fod yn anghyfartal, gyda'r ffigurau o ran niferoedd a chanrannau o bobl anabl sy'n gweithio yn y celfyddydau yn dal yn siomedig o isel. Byddwn yn cefnogi'r sefydliadau sy'n rhan o Bortffolio Celfyddydol Cymru i ystyried o ddifrif sut y gallant ddod yn gyflogwyr hyderus mewn perthynas ag anabledd. Mae'r ffigurau ar gyfer cyflogi pobl o gefndiroedd BAME ar draws Cymru yn 3%, sy'n cyd-fynd yn fras ag ystadegau cyffredinol Cymru; fodd bynnag, mae ffigurau poblogaeth BAME yng Nghaerdydd bellach oddeutu 15%, felly dylai sefydliadau celfyddydol yn y Brifddinas anelu'n llawer uwch, os ydynt am sicrhau eu bod yn wirioneddol gynrychioliadol o'u cymunedau lleol.

Yn anffodus, mae cynrychiolaeth ar fyrddau ac uwch dimau arwain ar draws Portffolio Celfyddydol Cymru yn waeth byth. Dim ond deuddeg o bobl o gefndiroedd BAME ac 17 o bobl anabl sy'n aelodau o fyrddau rheoli. Dyna pam y byddwn yn canolbwyntio yn ystod y ddwy flynedd nesaf ar wneud gwelliannau sylweddol i'r gweithlu, ar gynrychiolaeth ar fyrddau ac ar uwch rolau arwain i bobl anabl a phobl o gefndiroedd BAME.

Fel Cadeirydd Grŵp Monitro Cydraddoldeb Cyngor Celfyddydau Cymru, rwyf hefyd yn ymwybodol iawn bod gan ein sefydliad ni ein hunain waith i'w wneud er mwyn cynyddu amrywiaeth ei weithlu ei hun. Yn galonogol, mae bwrdd rheoli'r Cyngor yn fwy amrywiol nag y bu erioed ac felly mae cyfrifoldeb arnom i ddangos arweinyddiaeth gref i'r celfyddydau yng Nghymru ar sut i sicrhau sector mwy agored, cyfartal ac amrywiol. Byddwn yn parhau i wneud hyn drwy gefnogi sefydliadau celfyddydol i ddatblygu a monitro eu cyflawniadau yn fanwl drwy eu Cynlluniau Monitro Cydraddoldeb sy'n cael eu diweddaru'n flynyddol (sy'n ofyniad gorfodol er mwyn cael cyllid).

Edrychaf ymlaen at adrodd ar fwy o welliant byth yn ystod yr ail chwe mis, rhwng mis Tachwedd 2017 a mis Mawrth 2018, yn ddiweddarach eleni.

Richie Turner
Cadeirydd y Grŵp Monitro Cydraddoldebau

# Amcan Cydraddoldeb 1:

## Ymgysylltu, ymgynghori, porthi, annog ac ymherio a herio ein partneriaid yn weithredol

Byddwn yn parhau o hyd i drafod ac ymgynghori â rhanddeiliaid drwy ein rhaglen o ddigwyddiadau Sgwrs a seminarau. Byddwn yn defnyddio'r cyfle a gynigir yng Nghynhadledd Genedlaethol Cyngor y Celfyddydau i gryfhau proffil y celfyddydau a chydraddoldeb.

Rydym yn mynd ati'n frwd i ymgysylltu ag awdurdodau lleol a phartneriaid drwy gyfarfodydd partneriaeth; Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a digwyddiadau rhanbarthol. Cynhelir cyfres o ddigwyddiadau Sgwrs drwy gydol y Gaeaf ledled Cymru fel rhan o'n Sgwrs Greadigol Cymru Gyfan. Byddwn yn ymgynghori ag ystod amrywiol o unigolion a chyrff i sicrhau ein bod yn clywed cynifer o safbwyntiau â phosibl. Byddwn yn cynnal trafodaethau ar-lein a chyfarfodydd wyneb yn wyneb.

Un o brif themâu ein cynhadledd ddiwethaf oedd cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mewn astudiaethau achos a gweithdai, tynnwyd sylw at yr arferion gorau sydd ar waith ar hyn o bryd yn y sector a chomisiynwyd dwy ffilm yn edrych ar y ddarpariaeth i bobl ifanc a phobl hŷn a'r ymgysylltu cymunedol sy'n gefn i bobl sy'n wynebu rhwystrau a/neu anfantais. Hyrwyddwyd y ffilmiau hyn ar y cyfryngau cymdeithasol ar ôl y gynhadledd ac ar YouTube. Roedd yr anerchiad cloi'n trafod materion iechyd meddwl.

Yn y sgyrsiau Creadigol i Gymru Gyfan y trefnwyd eu cynnal drwy gydol mis Hydref tan fis Rhagfyr bydd ein Hagenda Cydraddoldeb yn cael ei hystyried yn un o'r 3 phrif gwestiwn. Bydd canlyniadau'r sgyrsiau hyn wedyn yn sail i amcanion ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2018-2025. Byddwn yn gofyn i'r ymgyfranogwyr a'r rhai sy'n cyfrannu ar lein i lenwi ffurflen monitro cydraddoldeb i'n helpu i greu darlun o'r bobl yr ydym yn siarad â nhw.

---

Byddwn yn rhannu'r arferion gorau drwy ein gwefan, bwletinau, adroddiad blynyddol a digwyddiadau / arddangosiadau sydd wedi'u targedu.

Rydym wedi rhannu amrywiaeth o straeon newyddion, cyfleoedd ac astudiaethau achos drwy ein gwefan, e-fwletinau, deunyddiau hyrwyddo ac eiriol, fideos, cyfryngau cymdeithasol a'n hadroddiad blynyddol. Cynhaliwyd cynhadledd benodol am y Celfyddydau a Phobl Hŷn ym mis Ebrill, ar y cyd â Sefydliad Baring a'r farn oedd iddi fod yn llwyddiant mawr. Mae prosiect cARTrefu Cymru hefyd wedi sicrhau cefnogaeth er mwyn parhau am ail gyfnod. Byddwn yn ystyried canfyddiadau adroddiad gwerthuso cyfnod 1 ac yn rhannu'r rhain drwy ein gwefan.

## 'Henaint sydd hardd, heneiddio sydd dda'

(Rhydwen Williams)

Cynhaliwyd hefyd symposia rhanbarthol *Dwyieithrwydd yn y Gwaith* ar y cyd â Chomisiynydd y Gymraeg ym mis Gorffennaf i helpu'r portffolio i ddatblygu Cynlluniau iaith Gymraeg. Seiliwyd y gweithdai ar brosesau Cynllun Hybu'r Gymraeg a oedd yn canolbwyntio ar gamau a chynnydd dros gyfnod ac mae'r pecyn yn helpu sefydliadau i asesu eu darpariaeth bresennol drwy ddefnyddio holiadur hunanasesu, ac wedyn, mae'n eu helpu i ddatblygu targedau - o ateb y ffôn, i'r cyfryngau cymdeithasol, digwyddiadau a recriwtio i raglennu. Cynhaliwyd y symposia hyn yn Llanelli, Caerdydd a Llandudno.

Bydd rhagor o astudiaethau achos, gan gynnwys y Comisiynau Heb Ffiniau yn cael eu hyrwyddo yn ystod y misoedd nesaf a bydd enghreifftiau o’r arferion gorau’n ffurfio e-daflen newyddion sy’n ymwneud â hyn yn benodol i Aelodau’r Cynulliad ym mis Rhagfyr.



Chloë Phillips/Clarke - *The Importance of Being Described...Earnestly?* Comisiwn Heb Ffiniau

Rydym wedi cyhoeddi Canllaw Cydraddoldeb ac wedi diweddaru ein dogfen Lle Cyfartal. Mae’r ddwy ddogfen yn cynnig gwybodaeth, cyngor ac astudiaethau achos am bob agwedd ar gydraddoldeb a’r celfyddydau. Byddwn yn cryfhau proffil y cyhoeddiadau hyn ar draws y sector diwylliannol. Byddwn yn comisiynu canllawiau ychwanegol i fod yn gefn i’r sector.

Rydym wedi comisiynu darn o waith a fydd yn cynnig cyngor ymarferol i leoliadau a chwmnïau theatr am sut i wneud gwaith yn fwy cynhwysol i ymwelwyr a/neu ymgyfranogwyr byddar neu sydd â nam ar eu clyw. Mae’r gwaith hwn, a gynhyrchwyd gan Jonny Cotsen, Rachel Kinchin a Chelfyddydau Anabledd Cymru, wedi’i gyhoeddi bellach ac mae ar gael ar ein gwefan.





Byddwn yn rhannu’r deunyddiau hyn drwy eu postio’n uniongyrchol at aelodau Portffolio Celfyddydau Cymru, Awdurdodau Lleol a chysylltiadau eraill, gan gynnwys cyrff arbenigol er mwyn tynnu sylw at wybodaeth am y cymorth sydd ar gael. Byddwn hefyd yn rhoi cyhoeddusrwydd i’r adnoddau hyn drwy’r cyfryngau cymdeithasol, a byddwn yn ceisio sicrhau slot yn Symposium Hynt ym mis Chwefror i hyrwyddo a thrafod y wybodaeth sydd ar gael i’r bobl fydd yn bresennol.

Wrth inni adolygu ein gwefan a'n dulliau cyfathrebu ehangach, byddwn yn ceisio  cyfarwyddyd i sicrhau bod y rhain yn cael eu dylunio'n unol â'r manylebau gorau er mwyn iddynt fod yn hygyrch i bawb.

Bydd sicrhau bod y wefan newydd yn hygyrch yn elfen ganolog o'i datblygu. Mae ein holl ddeunyddiau sy'n cael eu dylunio ar-lein ac ar ffurfiau eraill yn dilyn y canllawiau arferion gorau. Mae ein gwefan yn cydymffurfio â safon Dwbl-A Consortiwm y We Fyd-Eang. Mae ein deunyddiau dylunio'n cydymffurfio â chanllawiau'r Llywodraeth am fformatau cyfathrebu hygyrch, arferion Cymdeithas Fformatau Hygyrch y Deyrnas Unedig ac mae ein fformatau Hawdd eu Darllen yn dilyn gweithdrefnau Anabledd Dysgu Cymru.

Nifer yr ymweliadau â thudalennau Cydraddoldeb a'r nifer sydd wedi gweld dogfennau ar wefan Cyngor y Celfyddydau.
Ebrill 2017 – Medi 2017





Byddwn yn parhau i drafod cynnydd y cynllun hwn â phartneriaid allweddol a'r sector gan ofyn am eu help a'u cyngor am sut y dylem adolygu a diwygio'r camau y byddwn yn eu cymryd wrth symud ymlaen.

Ein bwriad yw cysylltu â'n cydweithwyr yn Arts Council England, ac rydym wedi siarad â'r BBC ac â chyrff eraill wrth lunio'r Cynllun hwn. Rydym wedi ymgynghori ag amryw o gyrff/grwpiau arbenigol wrth ddatblygu'r Cynllun a byddwn yn parhau i wneud hynny yn ystod ei oes, gan gynnwys ymgynghori â Chwmni Diwylliannol a Chelfyddydau'r Romani ac â Diverse Cymru. Ein bwriad yw chwilio am gyfleoedd i gysylltu â grwpiau sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys creu cysylltiadau yn sgil ein rôl fel un o Hyrwyddwyr Stonewall a hefyd ystyried sefydlu ffora trafod o blith aelodau cymuned y celfyddydau i'n cefnogi wrth inni ddatblygu ein syniadaeth.

# Amcan Cydraddoldeb 2

## Datblygu gweithlu sy'n adlewyrchu'n well amrywiaeth Cymru

Data gweithlu Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru
Roedd 5,222 o staff cyflogedig a gwirfoddolwyr ym Mhortffolio Celfyddydau Cymru yn 2016/17:




Mae'r manylion llawn i'w gweld yn Atodiad 2, ynghyd â data am weithlu Cyngor Celfyddydau Cymru.

---

Byddwn yn adolygu ein dull recriwtio mewnol ac yn datblygu cynllun gweithredu i wella ac estyn ein cyrhaeddiad. Fel rhan o raglen datblygu staff, byddwn yn darparu Datblygiad Proffesiynol Parhaus a hyfforddiant i gynnwys llinyn am Hyrwyddwyr Cydraddoldeb/Amrywiaeth.

Er mwyn cyrraedd darpar ymgeiswyr o gefndiroedd mwy amrywiol, yn ogystal â pharhau i hysbysebu ein swyddi gyda Stonewall Cymru, yn ddiweddar rydym wedi dechrau hysbysebu swyddi gyda Race Council Cymru a Chymdeithas y Tsieineaid yng Nghymru. Mae'r cyrff hyn wedi cytuno i rannu ein hysbysebion ag aelodau o'u rhwydwaith.

Ar ôl cael sgwrs â Phrif Weithredwr Race Council Cymru, a esboniodd fod darpar ymgeiswyr BAME yn gweld eu henwau eu hunain yn rhwystr rhag cyrraedd y rhestr fer, rydym wedi cynnal arbrawf yn ddiweddar i gelu enwau ymgeiswyr, a dileu manylion personol oddi ar y ffurflen gais pan fydd yn cyrraedd yr adran Adnoddau Dynol. Bydd y ffurflenni cais a gaiff aelodau'r panel recriwtio'n dangos cyfeirifau ond dim enwau na chyfeiriadau. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, dim ond ar gyfer un swydd y mae'r arbrawf ceisiadau dienw wedi'i gynnal, ac os gwelir bod hyn yn llwyddiant, byddwn yn dilyn yr un drefn ar gyfer pob swydd. Bydd angen inni ddiweddaru ein ffurflenni cais i esbonio'r broses ond ni fyddai hynny'n dasg feichus.

Byddwn eisoes yn paratoi adroddiad am amrywiaeth ein staff ac mae'r Grŵp Monitro wedi gofyn inni wneud yr un peth gyda golwg ar ymgeiswyr am swyddi. Bydd y data hyn ar gael cyn cyfarfod nesaf y Grŵp.

Ar hyn o bryd, byddwn yn gofyn i ymgeiswyr am swyddi a ydynt yn ystyried eu bod yn anabl yn unol â diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010 - Mae rhywun yn anabl os oes ganddo neu ganddi nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar ei (g)allu i gyflawni gweithgareddau arferol beunyddiol. Mae'r Cyfrifiad yn gofyn "A oes gennych afiechyd hirdymor cyfyngol?" ac roedd yn cynnig 11 o atebion posibl. Ar ein system Adnoddau Dynol ni, y cyfan y byddwn yn ei wneud yw gofyn i staff a ydynt yn anabl. Effaith hunanddiffinio yn y cyd-destun hwn yw na fydd staff sydd o bosibl yn anabl yn ôl diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010 yn eu hystyried eu hunain yn anabl, ac felly y byddent yn dewis ateb "Nac ydw" i'r cwestiwn hwn. Os yw hyn yn wir, bydd yn sicr yn gwyro'r ffigurau at ddibenion adroddiadau. Un dewis yma fyddai ail-eirio'r cwestiwn a gofyn "A oes gennych anabledd yn ôl Diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb?"

Yn ein Cynllun dysgu a datblygu mae hyfforddiant am gydraddoldeb ac amrywiaeth yn flaenoriaeth o bwys eleni ac rydym wedi dechrau trafod â chyrff allanol er mwyn dod o hyd i raglen briodol. Bwriedir i'r rhaglen hon ddechrau yn chwarter olaf y flwyddyn.

---

## Byddwn yn ymrwymo i gryfhau proffil cydraddoldeb ar draws gwaith y Cyngor, ar lefel Uwch Arweinwyr ac ymhlith aelodau ein Cyngor.

Mae'r Cyngor a'r Uwch Dîm Arwain wedi ymrwymo i roi Cydraddoldeb wrth galon ei agenda gorfforaethol yn 2017/18. Mae'r Cyngor wedi'i gwneud yn glir ei fod yn dymuno ehangu cyrhaeddiad gweithgareddau Cyngor y Celfyddydau gan eu lledu a sicrhau mwy o amrywiaeth ymhlith y bobl sy'n gallu elwa o'r celfyddydau a gaiff nawdd o'r pwrs cyhoeddus. Bydd hyn yn bwnc amlwg yn "Sgwrs Greadigol Cymru Gyfan" a gynhelir cyn bo hir ac wrth baratoi Cynllun Corfforaethol newydd y Cyngor.

Ategodd Ein Cadeirydd ymrwymiad y Cyngor i sicrhau datblygiadau sylweddol yn yr agenda hon yn nigwyddiad cloi Mis Hanes Pobl Dduon 2017.

---

## Byddwn yn adolygu ac yn archwilio gwaith cyrff eraill i ddysgu yn sgil eu llwyddiant i sicrhau mwy o amrywiaeth yn eu gweithlu, a byddwn yn mabwysiadu neu'n addasu'r rhaglenni hŷn at ein defnydd ni ein hunain lle bydd hyn yn briodol.

Byddwn yn canolbwyntio'n benodol ar gynyddu nifer y bobl anabl a phobl o gefndiroedd BAME a gyflogir yn sector y celfyddydau. Mae ein cydweithwyr yn BBC Cymru ac S4C yn gweld y maes hwn yn flaenoriaeth hefyd. Sefydlwyd Gweithgor i greu partneriaeth i ddatblygu cyfleoedd creadigol gyda'r nod o fynd i'r afael â chydraddoldeb a hyrwyddo amrywiaeth drwy ymyraethau ymarferol. Rydym bellach yn rhan o'r grŵp hwn.

Rydym hefyd yn cefnogi'r gwaith y mae Sefydliad y PRS yn ei wneud ym maes cerddoriaeth i fynd i'r afael â'r diffyg cydbwysedd rhwng y rhywiau drwy bartneriaethau Gorwelion yn Key Change.

Rydym hefyd wedi cefnogi prosiectau amlwg blaengar megis Gwobr Iris drwy Ffilm Cymru sydd bellach yn cael ei chydnabod, gan gynnwys gan y BFI, yn un o'r prif wobrau a gwyliau ar gyfer ffilm LGBTQ+ yn y Deyrnas Unedig.




Kyla Brox, Mis Hanes Pobl Dduon Cymru 2017
@IfyIwobiPhotography

Byddwn yn parhau i gynnal y Rhaglen i Ddatblygu Busnes a Threfniadaeth, Camau Creadigol (a lansiwyd yn ystod blwyddyn gyntaf y Cynllun). Mae'r rhaglen hon yn targedu cymorth i sefydliadau sy'n canolbwyntio ar anabledd a BAME - ein nod yw cryfhau'r rhwydwaith cymorth sydd ar gael i artistiaid anabl a BAME ar draws pob ffurf ar gelfyddyd. Byddwn hefyd yn parhau i neilltuo cyllid yn ein cynlluniau Loteri i gefnogi gwaith artistiaid ymhlith grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig. Byddwn yn cryfhau proffil y prosiectau a ddatblygir ac a gyflwynir gan grwpiau sy'n cael cymorth drwy'r rhaglen hon.

### Cynnydd ers y chwe mis cyntaf

Mae'r Grantiau **Camau Creadigol** a ganlyn wedi'u dyfarnu yn ystod y cyfnod:

Cafodd **Taking Flight Theatre Company** grant Datblygu Busnes gwerth £47,000 i alluogi aelodau craidd o'r tîm rheoli i ymgymryd â gweithgareddau penodol er mwyn datblygu eu marchnata masnachol a chymdeithasol, datblygu prosiectau tymor hir, llywodraethu a sut i sicrhau gwell budd gan roddwyr/noddwyr corfforaethol a phreifat.

Mae'r cwmni ar hyn o bryd wrthi'n bodloni amodau'r grant y mae angen iddynt gydymffurfio â hwy cyn dechrau ar ail flwyddyn cyllid Camau Creadigol. Roedd y cais eleni'n dangos y cynnydd y llwyddwyd i'w wneud ym Mlwyddyn 1 ac rydym yn obeithiol y bydd y cyllid eleni'n atgyfnerthu'r broses hon. Mae'r sefydliad yn dal i wynebu nifer o heriau sy'n deillio o'u dibyniaeth ar Arian Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru i gyflawni prosiectau allweddol (e.e. eu teithio) a hefyd gyda golwg ar le (gweler y Drafodaeth am Le Camau Creadigol isod) ond maent mewn gwell sefyllfa i weithio drwy'r heriau hyn am fod eu strwythur a'u prosesau'n gryfach.

Nid oedd cais **Fio** am gyllid Camau Creadigol yn y flwyddyn gyntaf wedi'i ddatblygu'n llawn pan gyflwynwyd ef ac felly, dyfarnwyd grant llai i'w galluogi i fireinio'u hanghenion a'u cynnig gyda chymorth ymgynghorydd. Mae'r ymgynghorydd hwn, Lawrence Beko, wedi rhoi adroddiad diagnostig cynhwysfawr i Fio y bydd y cwmni'n ei ddefnyddio i lywio cais newydd o dan y cynllun Camau Creadigol. Ochr yn ochr â hyn, mae cyllid (nid grant) Camau Creadigol gwerth £1,750 wedi ein galluogi i gontractio David Metcalf i ymgymryd â throsolwg ariannol ar Fio. Disgwylir i'r adolygiad hwn gael ei gwblhau ym mis Hydref 2017 a bydd hefyd yn llywio cais Camau Creadigol newydd Fio. Er ei fod yn siomedig i ddechrau gyda'r penderfyniad am ei gais mawr cyntaf, mae Fio wedi gwerthfawrogi gallu treulio rhywfaint o amser yn benodol yn gweithio gyda'r ymgynghorwyr hyn ac mae'n cydnabod y dylai'r dull fesul cam hwn fod o fudd yn y tymor hir.

Dyfarnwyd y grantiau Camau Creadigol a ganlyn cyn Ebrill 2017 ond mae'r prosiectau'n cael eu cyflawni yn 2017/18:

Cafodd **Ballet Nimba** grant gwerth £50,000 i helpu'r cwmni i barhau â'i ddatblygiad busnes ac artistig ac mae'n parhau â'i ail flwyddyn o gyllid Camau Creadigol Mae hyn yn cael ei fonitro drwy gyfarfodydd chwarterol â'r sefydliad. Cyn bo hir, bydd angen inni edrych eto ar ei strategaeth ymadael oherwydd bod y grant cyfredol yn para tan ddiwedd Mawrth 2018.




NIMBA (llun: Anita Hummel)

Dyfarnwyd grant o £10,000 i G39 yn 2016 ond mae'r prosiect wedi'i ddiwygio a bellach mae'n mynd drwy gyfnod Ymchwil a Datblygu cychwynnol i weld sut y gellid gwneud eu rhaglen datblygu artistiaid WARP fod yn fwy hygyrch i artist BAME. Mae'r gyllideb a'r amserlen wedi'u diwygio, yn ogystal â'r grant a ddyfarnwyd. Newydd ddechrau mae'r prosiect ac mae'n dod i ben ym mis Awst 2018.

Mae £3,000 o gyllid Camau Creadigol hefyd wedi galluogi Trafodaeth Gofod Camau Creadigol gyda hwylusydd. Y rheswm dros hyn oedd bod pedwar o gyrff Camau Creadigol; Ballet Nimba, Fio, Jukebox a Taking Flight i gyd wedi nodi bod ganddynt broblemau o ran lle. Mae adroddiad yr ymgynghorydd wedi'i gyhoeddi a'i rannu gyda'r sefydliadau. Y tu hwnt i fwrw ymlaen â syniadau drwy waith Gwytnwch Jukebox yn y cyswllt hwn, er bod y ddogfen o gymorth, mae angen archwilio rhagor sut y gall y sefydliadau Camau Creadigol nad ydynt yn rhan o Bortffolio Celfyddydau Cymru gamu ymlaen.

Age Cymru – Cyhoeddwyd gwerthusiad o gyfnod cyntaf y prosiect ym mis Hydref sy'n amlinellu effaith a chyrhaeddiad y prosiect. Mae'r dystiolaeth wedi dangos pa mor llwyddiannus fu'r prosiect, yn enwedig o ran datblygu gwybodaeth a sgiliau'r gweithwyr gofal yng nghartrefi'r rhaglen cARTrefu, sy'n hanfodol er mwyn sicrhau bod y dull hwn yn gynaliadwy yn y tymor hir. Mae ail gam y rhaglen ar y gweill. Mae hwn eto wedi'i ariannu ar y cyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Sefydliad Baring ac mae'n adeiladu ar lwyddiant cyfnod 1 a'r gwersi a ddysgwyd yn sgil hynny. Byddwn yn parhau i fonitro'r ail gyfnod sy'n rhedeg tan 2019 ac rydym yn bwriadu sgwrsio'n fuan ag Age Cymru i drafod y gwaddol.



cARTrefu, Artist: Sophie McKeand

Byddwn hefyd yn parhau i neilltuo cyllid yn ein cynlluniau Loteri i gefnogi gwaith artistiaid ymhlith grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig.

Gofynnwyd am ddata yn y cyswllt hwn ac mae'r rheini wedi'u cynnwys yn Atodiad 3 tudalen 43

---

Byddwn yn cryfhau proffil y prosiectau sy'n cael eu datblygu a'u cyflawni gan grwpiau a gefnogir drwy'r rhaglen hon.

Nid yw'r cam gweithredu hwn wedi cychwyn yn ystod chwe mis cyntaf y rhaglen ond gweler y camau y bwriedir eu cymryd isod.

### Camau y bwriedir eu cymryd yn y chwe mis nesaf

Camau Creadigol

- Parhau i gefnogi'r sawl sy'n derbyn Grantiau Camau Creadigol a datblygu cysylltiadau â darpar Sefydliadau Camau Creadigol newydd.
- Adolygu llinyn Datblygu Busnes a Threfniadaeth Camau Creadigol i werthuso sut mae'r rhaglen gyfredol yn gwireddu ei nodau a sut y gellid ei datblygu.
- Ystyried sut y gallwn gefnogi'r pedwar sefydliad Camau Creadigol a oedd yn rhan o'r drafodaeth am Le yn y rhaglen Camau Creadigol i fwrw ymlaen ag argymhellion adroddiad ein hymgynghorydd.

Neilltuo cyllid o fewn ein cynlluniau Loteri i gefnogi gwaith artistiaid ymhlith grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

- Gweithio gyda'r Grŵp Cynllunio Corfforaethol i sicrhau bod safbwyntiau/artistiaid a chymunedau amrywiol yn cael cyfle i ymgysylltu â'n Sgyrsiau Creadigol y bwriedir eu cynnal.
- Gweithio gyda'r tîm gwasanaethau Buddsoddi a Chyllido i sicrhau bod unrhyw newidiadau i'n Canllawiau Loteri yn ystyried artistiaid o grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig.
- Parhau i fonitro nifer yr artistiaid a sefydliadau'r celfyddydau sydd ymhlith grwpiau â nodweddion gwarchodedig ac sy'n manteisio ar Arian y Loteri gyda golwg ar ddefnyddio'r data hyn i lywio datblygu ein rhaglen Loteri.

Byddwn yn cryfhau proffil y prosiectau a ddatblygir ac a gyflwynir gan grwpiau sy'n cael cymorth drwy'r rhaglen hon.

- Cysylltu â'r Tîm Cyfathrebu i nodi camau gweithredu a'u gwireddu yn y cyswllt hwn.

Byddwn yn parhau i gefnogi'r Rhaglen Comisiynau Heb Ffiniau ar y cyd â Chynghorau Celfyddydau eraill y Deyrnas Unedig er mwyn cryfhau gallu artistiaid anabl a sefydliadau'r celfyddydau a'u cefnogi. Byddwn yn adolygu effaith Rhaglenni Datblygu Artistiaid BAME sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd gan g39 ac yn ystyried sut mae datblygu'r rhaglen hon.

## Cynnydd ar ôl y chwe mis cyntaf

### Heb Ffiniau

Yn ystod chwe mis cyntaf 2017/18 mae'r Dyfarniadau Heb Ffiniau a ganlyn wedi'u rhoi i artistiaid o Gymru:

- Kaite O-Reilly, 'And Suddenly I Disappear: The Singapore 'd' Monologues' (rhyngwladol
- Chloe Phillips/Clarke 'The Importance of Being Described...Earnestly?' (Ymchwil a Datblygu)



Comisiwn Heb Ffiniau *'And Suddenly I Disappear: The Singapore/UK 'd' Monologues'* a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru a The British Council, a ysgrifennwyd gan Kaite O'Reilly ac a gyfarwyddwyd gan Phillip Zarrilli (llun: Wesley Loh (Lluniau Memphis West).

Cyflwynwyd ceisiadau gan yr artistiaid a ganlyn hefyd a roddwyd ar y rhestr fer ac mae'r rhain yn awr yn gallu manteisio ar ystod o gyfleoedd hyfforddi a rhwydweithio fel rhan o'r 'teulu' Heb Ffiniau:

- Elaine Paton (Ymchwil a Datblygu)
- David Sinden (Ymchwil a Datblygu)
- Tom Wentworth (Cyw artist)
- Jonny Cotsen (Cyw artist)
- Virginia Blakey/Equart (Rhyngwladol)

Cafwyd cyflwyniad gan Gynhyrchydd Creadigol Heb Ffiniau, Jo Verrent, i staff y Cyngor i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y rhaglen a sut y gallwn helpu, sbarduno ceisiadau ac annog cyflwyno'r gwaith yng Nghymru. Mae rhai syniadau sydd wedi deillio o'r trafodaethau hyn wedi'u hadlewyrchu yn y camau a awgrymir ar gyfer y chwe mis nesaf isod.

### Rhaglen Datblygu Artistiaid BAME DRAW

Fel y nodir uchod dyfarnwyd grant i G39 yn 2016 ond mae'r prosiect wedi'i ddiwygio ac mae bellach yn mynd drwy gyfnod Ymchwil a Datblygu cychwynnol i weld sut y gall eu rhaglen i ddatblygu artistiaid WARP fod yn fwy hygyrch i artistiaid BAME. Mae'r gyllideb a'r amserlen wedi'u diwygio, yn ogystal â'r grant a ddyfarnwyd. Newydd ddechrau mae'r prosiect ac mae'n dod i ben ym mis Awst 2018. Felly, bydd angen adolygu effaith y rhaglen ar ôl hyn yn ystod ail hanner 2018/19.

## Camau y bwriedir eu cymryd yn y chwe mis nesaf

### Heb Ffiniau

- Annog ceisiadau i'r rownd bresennol o gomisiynau drwy hyrwyddo cyfleoedd i grwpiau arbenigol a thrwy gyfrwng y cyfryngau cymdeithasol.

- Trafod a chytuno ar gyfraniad y Cyngor at rowndiau Heb Ffiniau sydd wedi'u cynllunio at y dyfodol ar gyfer blynyddoedd 2018/19 a 2019/20.

- Cyfeirio artistiaid/sefydliadau yng Nghymru sydd â chynnyrch addas eisoes tuag at gyfleoedd posibl i arddangos eu gwaith yn yr Ŵyl Heb Ffiniau @ Southbank ym mis Medi 2018

- Cytuno sut y byddwn yn helpu Heb Ffiniau i ddenu'r lleoliadau yng Nghymru i raglennu'r gwaith a chymryd unrhyw gamau a nodir yn y cyswllt hwn.

---

Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau Portffolio Celfyddydau Cymru, fel un o amodau'r cyllido, gyflwyno Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol boddhaol. Byddwn yn disgwyl i gynlluniau gynnwys gwybodaeth am sut y bydd ein Sefydliad Portffolio yn cymryd camau i sicrhau amrywiaeth yn ei weithlu. Byddwn yn gweithio gyda'r portffolio i nodi, datblygu a chyflawni rhaglenni wedi'u targedu yn ôl y gofyn.

Adeg ysgrifennu'r adroddiad, mae pob un ond 6 o sefydliadau Portffolio Celfyddydau Cymru wedi cyflwyno Cynlluniau Gweithredu Cydraddoldeb Strategol. Mae'r Swyddogion Arweiniol wedi parhau i gynnal sgyrsiau gyda'r chwech, ac, oherwydd bod hyn bellach yn amod ar gyfer cael grant, mae'r ail

daliad i'r sefydliadau hyn wedi cael ei ddal yn ôl. Ers dechrau'r flwyddyn galendr newydd, roedd pob un o sefydliadau Portffolio Celfyddydau Cymru wedi cyflwyno cynlluniau boddhaol.

Mae ansawdd y cynlluniau gweithredu ar y cyfan wedi gwella ers y llynedd. Cynhaliwyd ymarfer hapwirio gan swyddogion y tîm Ymgysylltu ac Ymgyfranogi ar ôl i'r dyddiad cyflwyno ddod i ben gan ddilyn trywydd hyn wedyn drwy gael sgyrsiau gyda'n Swyddogion Arweiniol, lle nad oedd cynlluniau wedi'u cyflwyno neu lle roedd cynlluniau a oedd wedi'u cyflwyno'n cael eu hystyried yn wan o ran eu cynnwys.

Wrth ddadansoddi'r cynlluniau, gwelwyd mai'r meysydd y mae gofyn canolbwyntio mwy arnynt yw Datblygu'r Gweithlu a'r Bwrdd ac Arwain. Fodd bynnag, gyda golwg ar yr olaf o'r ddau, mae yna rai sefydliadau y gellid eu hystyried yn esiamplau da.

Cynhaliodd rheolwr ein Portffolio sy'n gyfrifol am Gydraddoldeb, ynghyd â'n Swyddog Datblygu mwyaf profiadol yn y maes gwaith hwn,  gyfres o gymorthfeydd i Swyddogion Datblygu pan oedd y cynlluniau'n cael eu cyflwyno a dangosodd ein hapwiriadau fod hyn wedi cael effaith gadarnhaol iawn. Roedd y cynlluniau terfynol a gyflwynwyd gan gleientiaid y swyddogion hyn o safon uwch, gan ddangos gwerth ac effeithiolrwydd y cymorthfeydd eu hunain.

### Y Camau Nesaf:

Mae angen inni ddadansoddi'r Cynlluniau er mwyn sicrhau ein bod yn gwybod am y tueddiadau a'r anawsterau pwysicaf. Byddwn yn rhoi adborth i gleientiaid unigol fel rhan o'n trafodaethau parhaus ac wrth drafod y Cytundeb Cyllido. Byddwn yn darparu sesiwn hyfforddi cychwynnol i swyddogion fel rhan o'r gwaith gloywi ar gyfer asesu'r cynllun busnes. Byddwn yn datblygu camau penodol i fynd i'r afael â Llywodraethu ac Arwain.

---

Byddwn yn ystyried ein meini prawf ariannu ar gyfer y Loteri, y canllawiau ac amodau'r grant ac yn eu diwygio yn ôl y gofyn i ddatblygu gwell dealltwriaeth o gyfansoddiad y sefydliadau yr ydym yn eu hariannu ac er mwyn inni gael gwybod am unrhyw newidiadau y gall fod angen inni eu gwneud. Bydd y rhain yn cynnwys diwygio ein meini prawf ariannu.

Mae'r broses o adolygu canllawiau a meini prawf y loteri wedi'i hatal dros dro nes cael canlyniad ymgynghoriad y Sgyrsiau Creadigol. Ar ôl cwblhau hyn a chytuno ar ein cyfeiriad strategol ar gyfer y dyfodol, byddwn yn dechrau'r darn hwn o waith.

---


Rydym wedi cyhoeddi Canllaw Cydraddoldeb ac wedi diweddaru ein dogfen Lle Cyfartal. Mae'r ddwy ddogfen yn cynnig gwybodaeth, cyngor ac astudiaethau achos am bob agwedd ar gydraddoldeb a'r celfyddydau. Byddwn yn cryfhau proffil y cyhoeddiadau hyn ar draws y sector diwylliannol. Byddwn yn comisiynu canllawiau ychwanegol i fod yn gefn i'r sector.

Rydym wedi comisiynu darn o waith a fydd yn cynnig cyngor ymarferol i leoliadau a chwmnïau theatr am sut i wneud gwaith yn fwy cynhwysol i ymwelwyr a/neu ymgyfranogwyr sy'n fyddar neu sydd â nam ar eu clyw. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud gan Jonny Cotsen, Rachel Kinchin a Chelfyddydau Anabledd Cymru. Ar ôl ei gyhoeddi, byddwn yn manteisio ar y cyfle i gryfhau proffil ein cyfres o ddogfennau canllaw/cymorth i'r sector. Byddwn yn comisiynu adnodd tebyg sy'n canolbwyntio ar ganllawiau ym maes nam ar y golwg.

# Amcan Cydraddoldeb 3:

## Gwella cynrychiolaeth ym maes llywodraethu sefydliadau celfyddydol

Byrddau Rheoli - Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru
Roedd 696 o aelodau ar fyrddau rheoli'r Portffolio yn 2016/17:




Mae'r manylion llawn i'w gweld yn Atodiad 2 tudalen 34

---

Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau Portffolio Celfyddydau Cymru, a hynny'n amod ar gyfer cael cyllid, gyflwyno Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol boddhaol. Byddwn yn disgwyl i'r cynlluniau gynnwys gwybodaeth am sut y bydd sefydliadau ein Portffolio'n cymryd camau i sicrhau rhagor o amrywiaeth yn eu byrddau rheoli. Byddwn yn gweithio gyda'r portffolio i nodi, datblygu a chyflawni rhaglenni wedi'u targedu yn ôl y gofyn.

Gweler uchod tudalen 13

Daeth gwella Llywodraethu yn un o'n prif flaenoriaethau a byddwn yn bwrw ymlaen â hyn eleni drwy ein rhaglen gwytnwch.

---

Bydd Rhaglen Datblygu'r Bwrdd a'n Cynllun Gwytnwch newydd yn cynnwys elfennau penodol i helpu sefydliadau i nodi camau gweithredu i sicrhau mwy o amrywiaeth ar eu Byrddau.

Byddwn yn trefnu gweithdai gyda'n Portffolio Celfyddydau drwy Gymru i weithio i sicrhau mwy o amrywiaeth ar y Byrddau Rheoli. Cynhaliwyd y cyfarfod cynllunio ar gyfer hyn ar 14 Tachwedd a chytunwyd ar ddyddiad bellach ar gyfer y gweithdy.

Byddwn yn ystyried ein meini prawf cyllido ar gyfer y Loteri, y canllawiau ac amodau'r grant ac yn eu diwygio yn ôl y gofyn i ddatblygu gwell dealltwriaeth o gyfansoddiad y sefydliadau yr ydym yn eu hariannu ac er mwyn inni gael gwybod am unrhyw newidiadau y gall fod angen inni eu gwneud.

Gweler uchod tudalen 14

---

Rydym wedi cyhoeddi Canllaw Cydraddoldeb ac wedi diweddaru ein dogfen Lle Cyfartal. Mae'r ddwy ddogfen yn cynnig gwybodaeth, cyngor ac astudiaethau achos am bob agwedd ar gydraddoldeb a'r celfyddydau. Byddwn yn cryfhau proffil y cyhoeddiadau hyn ar draws y sector diwylliannol. Byddwn yn comisiynu canllawiau ychwanegol i fod yn gefn i'r sector.

Gweler uchod tudalen 4

---

Gweithio mewn partneriaeth â chyrff eraill i ddatblygu rhaglen arwain ym maes y celfyddydau a chydraddoldeb.

See previous reference to working with BBC and S4C tudalen 7. We will also link with Arts Council of England to explore and learn from the Change Makers programme to help us develop a bespoke approach for Wales.

## Amcan Cydraddoldeb 4:

### Cynyddu amrywiaeth Cynulleidfaoedd y Celfyddydau

**Cyfanswm nifer y digwyddiadau a dargedwyd at bobl o fewn grwpiau gwarchodedig y Portffolio yn 2016/17 oedd**

**4,396** gan gynhyrchu

**512,307** o fynychiadau

Mae manylion llawn y digwyddiadau a'r mynychiadau i'w gweld yn Atodiad 2 tudalen 37

---

Byddwn yn parhau i ddarparu Hynt, ein cynllun cerdyn anabledd ar gyfer lleoliadau'r celfyddydau drwy Gymru. Byddwn hefyd yn ystyried y posibilrwydd o ledaenu'r cynllun hwn ar draws sector y celfyddydau. Byddwn yn monitro effaith y cynllun ar gynulleidfaoedd yng Nghymru drwy ein prosiect marchnata Mewnwelediad Cynulleidfa a datblygu cynulleidfaoedd.

Rydym wedi adnewyddu'r contract gyda Creu Cymru tan 2020 i ddarparu a rheoli Hynt ar ein rhan, mewn partneriaeth â Diverse Cymru. Hyd yn hyn, mae dros 9,500 o gardiau wedi'u rhannu ac mae dros 40 o leoliadau'n aelodau. Byddwn yn parhau i ystyried y posibilrwydd o ddatblygu'r cynllun, ac yn monitro'i effaith ar gynulleidfaoedd drwy archwilio'r data a ddarperir gan gydweithwyr Ymchwil a Mewnwelediad Cynulleidfa.

Cyhoeddodd prosiect Mewnwelediad Cynulleidfa Cymru - a reolir gan Clearview - fwletin cychwynnol ym mis Tachwedd 2016 am gynulleidfaoedd Hynt. Mae'n werth tynnu sylw at y prif ganfyddiadau yma er diddordeb:

Daw cwsmeriaid Hynt o bob sector o'r gymdeithas

Rhannwyd dros chwarter tocynnau Hynt i bobl sy'n byw mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf

Maent fwy na dwywaith yn fwy tebygol o weld sioeau cerdd na chynulleidfaoedd yn gyffredinol.

Ar gyfartaledd, bydd cwsmeriaid Hynt yn mynychu digwyddiadau'r celfyddydau a digwyddiadau adloniannol yn amlach na chynulleidfaoedd yn gyffredinol.

Hyd yn oed wedyn, dim ond i un digwyddiad dros gyfnod o 18 mis yr aeth **54%**.

Maent yn fwy tebygol o brynu eu tocynnau ymhell o flaen llaw

Maent yn llai tebygol o deithio o'r tu allan i ddalgylch y lleoliad

Byddwn yn ystyried cofrestru'r Eiddo Deallusol ar gyfer Hynt, gyda golwg ar gynnig y cynllun hwn i rannau eraill o'r Deyrnas Unedig a'r tu hwnt i'r sector diwylliannol.

**Mae Mewnwelediad Cynulleidfa wedi dangos bod nifer y tocynnau a brynwyd drwy'r cynllun wedi dyblu o**

**3,230**

**yn 2015/16 i**

**6,541**

**yn 2016/17**

Dylid nodi hefyd nad yw pob lleoliad sy'n darparu Hynt yn rhan o'r prosiect Mewnwelediad Cynulleidfa.

Mae manylion y tocynnau a brynwyd fesul ardal Awdurdod Lleol i'w gweld yn Atodiad 2 tudalen 36

---

Mae ein harian ar gyfer Cynhyrchu a Theithio yn cynnwys amod grant ynghylch perfformiadau hygyrch a byddwn yn monitro effaith hyn er mwyn helpu i lywio camau gweithredu yn y dyfodol.

Byddwn yn ystyried y posibilrwydd o roi cymorth wedi'i dargedu i annog cynlluniau ar y cyd rhwng cwmnïau cynhyrchu cynhwysol a theatrau/canolfannau'r celfyddydau i gynhyrchu gwaith i deithio sy'n rhoi cydraddoldeb yn gadarn wrth ei galon.

Mae ein gwaith yn y maes hwn wrthi'n cael ei adolygu er bod yr amod ar gyfer cael grant yn berthnasol o hyd. Byddwn yn dadansoddi adroddiadau cwblhau'r prosiectau hynny sydd wedi cael cymorth ac yn tynnu ynghyd adroddiad effaith i'w rannu fel rhan o'r adroddiad adolygu 12 mis. Bydd hyn yn help inni benderfynu sut y byddwn yn datblygu'r gwaith hwn wrth gamu ymlaen.

---

Yn ein strategaeth bresennol ar gyfer Cyfalaf, nodir bod angen mynd i'r afael â phroblemau hygyrchedd yn ein lleoliadau ar gyfer y celfyddydau. Hyd yn hyn, nid oes llawer wedi manteisio ar y cynllun. Byddwn yn ailystyried hyn gan roi sylw i'r wybodaeth a gawn drwy Gynlluniau Gweithredu Cyfrifoldeb Strategol Portffolio Celfyddydau Cymru.

Mae'r Rhaglen Gyfalaf bellach ar gau i geisiadau ac eithrio'r prosiectau mawr hynny sydd eisoes wrthi'n cael eu datblygu (bydd gofyn bob tro i'r rhain fodloni safonau'r Ddeddf Cydraddoldeb), a phrosiectau sy'n targedu gwella hygyrchedd a chynaliadwyedd amgylcheddol (yn ogystal â phrosiectau sy'n deillio o waith gwytnwch).

Mae swm o £300,000 yn y gyllideb Gyfalaf o hyd i gefnogi cynlluniau hygyrchedd arbennig sydd wedi'u nodi ac amodau wedi'u hychwanegu at sawl grant lle nad oes archwiliadau hygyrchedd wedi'u cynnal er mwyn sicrhau bod gwella'r hygyrchedd yn ganlyniad cysylltiedig. Hyd yn hyn, mae'r rhain wedi cynnwys g39, Theatr Colwyn (nad oedd yn rhan o'r archwiliad cychwynnol), Neuadd Buddug a'r Congress Theatre.

Dilynodd ein holl brosiectau yn y rhaglen sinema ddigidol broses debyg hefyd lle y cynigiwyd archwiliadau hygyrchedd a mynnu bod camau'n cael eu cymryd i wella pethau cyn dyfarnu'r prif gyllid ar gyfer sinema.

Fel rhan o bartneriaeth y Deyrnas Unedig yn Fenis, comisiynodd y Cyngor Prydeinig Shape Arts yn yr hydref i baratoi archwiliad hygyrchedd ac adolygiad o bresenoldeb y Deyrnas Unedig yn Biennale Fenis eleni (Pafiliwn Prydain, Cymru yn Fenis, Yr Alban + Fenis) gan archwilio hygyrchedd curadurol yn ogystal â hygyrchedd corfforol. Lleoliad Cymru yn Fenis yn y pedwar cyflwyniad diwethaf oedd y Santa Maria Ausiliatrice, lleoliad hanesyddol mewn man allweddol yn y ddinas. Mae'n gwbl hygyrch i gadair olwyn. Serch hynny, rydym yn cydnabod bod mwy o le a mwy o gyfle i wella'r hygyrchedd i'r lleoliad ac at gynnwys yr arddangosfa. Rydym yn disgwyl adroddiad terfynol y Cyngor Prydeinig a fydd yn cynnwys ei ganfyddiadau a'i argymhellion. Fe'i disgwylir ddechrau 2018 a bydd Pwyllgor Cynghori Cymru yn Fenis yn ei adolygu er mwyn cytuno ar gynllun gweithredu ar gyfer cyflwyniadau yn y dyfodol.

---

Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau Portffolio Celfyddydau Cymru gyflwyno Cynlluniau Gweithredu Cydraddoldeb Strategol a bydd hynny'n amod ar gyfer cael cyllid. Bydd hyn yn ein galluogi i fod yn fwy gwybodus am ystod o faterion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- y sefyllfa ar hyn o bryd gyda golwg ar gydraddoldeb a chyflogaeth yn y celfyddydau
- y gwaith y mae ein portffolio'n bwriadu ei wneud i fynd i'r afael â'r materion y maent wedi'u nodi
- y gwaith y mae angen i ni ymgymryd ag ef i gefnogi'r portffolio

---

Byddwn yn monitro cyflawni Cynlluniau Gweithredu'r Portffolio ac yn datblygu ac yn cyflawni rhaglenni wedi'u targedu yn ôl y gofyn. Byddwn yn cynnwys amodau penodol mewn cytundebau cyllido ar gyfer y Portffolio yn ôl y gofyn.

Gweler uchod tudalen 13

---

Byddwn yn archwilio ein meini prawf ar gyfer cyllid y Loteri, a hefyd y canllawiau a'r amodau ar gyfer cael grant ac yn eu diwygio fel y bydd angen

Gweler uchod tudalen 14

---

Rydym wedi cyhoeddi Canllaw Cydraddoldeb ac wedi diweddaru ein dogfen Lle Cyfartal. Mae'r ddwy ddogfen yn cynnig gwybodaeth, cyngor ac astudiaethau achos am bob agwedd ar gydraddoldeb a'r celfyddydau. Byddwn yn cryfhau proffil y cyhoeddiadau hyn ar draws y sector diwylliannol. Byddwn yn comisiynu canllawiau ychwanegol i fod yn gefn i'r sector.

Gweler uchod tudalen 4

# Amcan Cydraddoldeb 5:

## Cynyddu amrywiaeth yr ymgyfranogwyr o'r Celfyddydau

**Yn arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru 2016/17 cofnodwyd bod yna**

**7,543**

**o sesiynau ymgyfranogi wedi'u targedu at y rheini o fewn y grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Cafwyd cyfanswm o**

**137,131**

Mae'r manylion llawn i'w gweld yn Atodiad 2 tudalen 37

---

Byddwn yn parhau i gyflawni ein rhaglenni cyfredol sydd wedi'u targedu ac yn gwerthuso'u heffaith.

Mae dwy raglen allweddol sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd sy'n canolbwyntio ar bobl o oedran penodol. Prosiect cARTrefu Cymru yw un o'r rhain, ar y cyd ag Age Cymru a Sefydliad Baring a'r llall yw dysgu Creadigol drwy'r celfyddydau. Cyfeiriwyd at y cyntaf yn gynharach yn yr adroddiad ac mae'n targedu pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal drwy Gymru a'u gofalwyr.

Rhaglen fawr ym maes y celfyddydau ac addysg/dysgu creadigol yw Dysgu creadigol drwy'r Celfyddydau sy'n cael ei darparu ar y cyd â Llywodraeth Cymru. Mae dau linyn y rhaglen ar agor i bob ysgol yng Nghymru, ond rydym yn targedu ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig iawn a disgyblion mewn ysgolion sy'n wynebu rhwystrau rhag dysgu ac a all fod ymhlith ein cyflawnwyr isaf. Mae 40 o ysgolion arbennig ar hyn o bryd yng Nghymru ac mae 16 o'r ysgolion hyn wedi cael cyllid i ddod yn Ysgol Greadigol Arweiniol. Mae 7 ysgol arbennig arall wedi cael grantiau Mynd i Weld i brofi digwyddiadau celfyddydol a diwylliannol.

Byddwn yn targedu ysgolion arbennig drwy ein grantiau Profi'r Celfyddydau a thrwy waith ein Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol. Ein bwriad yw ymgysylltu â phob un o'r 40 ysgol arbennig cyn diwedd y rhaglen.



*Ewch i Weld*, Ysgol Gynraedd Llanfihangel Rhydithon
Gweithdy drama Nadolig Fictoraidd


Un o’n prif amcanion o 2016 ymlaen yw datblygu strategaeth bwysig ar gyfer y Celfyddydau ac Iechyd yng Nghymru. Mae ein gwaith cwmpasu hyd yma wedi awgrymu bod y celfyddydau ac iechyd meddwl yn debygol o fod yn nodwedd allweddol yn y strategaeth hon y bydd gofyn am gamau penodol i’w gwireddu. Bydd rhaglenni’n parhau i ddarparu ein rhaglenni cyfredol sydd wedi’u targedu ac yn gwerthuso’u heffaith



*Celf o’r Gadair Freichiau*, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Theatr Clwyd (llun: Joel Cockrill)

Diweddariad am y Celfyddydau ac Iechyd


Y 6 mis diwethaf: Rydym wedi bod yn gwneud gwaith cwmpasu ym maes y celfyddydau ac iechyd dros y 6 mis diwethaf. Bydd hyn yn arwain at gyhoeddi [Adroddiad Mapio] manwl ddechrau Tachwedd 2017 a fydd yn cynnig darlun cynhwysfawr o ystod a hyd a lled y gwaith ledled Cymru yn y maes hwn, o safbwynt sector y celfyddydau a thrwy lygaid y Bwrdd Iechyd.




Roedd un o’r cwestiynau yn yr arolwg ar-lein yn yr adroddiad Mapio yn gofyn i ymatebwyr a oedd eu gwaith ym maes y Celfyddydau ac Iechyd yn targedu’n benodol bobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Roedd yr ymateb i hyn yn datgelu, o blith cyfanswm o 207 o brosiectau yr adroddwyd yn eu cylch, mai oedran yn un o’r prif sbardunau, yn ogystal ag anabledd. Roedd 45.9% o’r holl brosiectau’n dweud bod oedran yn nodwedd yr oeddent yn ei dargedu’n fwriadol drwy eu gwaith Celfyddydau ac Iechyd. Mae hyn yn adlewyrchu bod cryn dipyn

o waith yn digwydd gyda phobl hŷn (a all fod yn dioddef o ddementia, clefyd Parkinson neu unrhyw afiechyd neu nam gwybyddol arall sy'n cyfyngu ar eu bywyd). Byddai hefyd yn cynnwys y gwaith sy'n cael ei wneud mewn cartrefi gofal drwy brosiect cARTrefu a thrwy ymyraethau cerddorol LMN. Adroddwyd am nifer o brosiectau hefyd a oedd yn canolbwyntio ar iechyd a lles meddyliol pobl ifanc (megis Creu - clwb Venue Cymru i bobl ifanc sy'n cael eu hatgyfeirio gyda phroblemau iechyd meddwl a'r Caban Sgriblio, gwaith Arts Alive gyda phobl ifanc). Ni chafwyd atebion digon cyson i'r cwestiwn yn yr arolwg ynghylch pa grŵp oedran yr oedd prosiectau'n eu targedu er mwyn inni allu manylu rhagor am y categori hwnnw.

Dywedodd 33.8% arall fod anabledd yn nodwedd yr oedd eu gwaith yn canolbwyntio arni ran y Celfyddydau ac Iechyd.




Y 6 mis Nesaf: Byddwn yn cyfarfod â chydweithwyr ym maes Iechyd Llywodraeth Cymru ganol mis Tachwedd i drafod canfyddiadau'r adroddiad Mapio. Bydd canlyniadau'r trafodaethau hynny yn llywio ac yn sail i'n camau nesaf a byddant yn bwydo i gynllun gweithredu a strategaeth (a fydd yn cynnwys blaenoriaethau) ym maes y Celfyddydau a Iechyd. Byddwn hefyd yn cynnwys camau sy'n berthnasol i'n Memorandwm Dealltwriaeth gyda chydffederasiwn y GIG sy'n golygu ein bod yn ymrwymo i gydweithio er mwyn cryfhau'r ymwybyddiaeth o'r budd i iechyd a lles sy'n deillio o ymgyfranogi yn y celfyddydau. Byddwn yn awyddus i weld unrhyw newidiadau yng nghyllid y loteri yn adlewyrchu'r blaenoriaethau sy'n codi ym maes y Celfyddydau a Iechyd. Byddwn hefyd yn awyddus i weld cydgysylltu rhwng Cynlluniau llesiant y Byrddau Gwasanaethau Lleol a'n gwaith ni yn y maes hwn yn ogystal ag unrhyw gysylltiadau â chynllun yr Ysgolion Iach a dysgu Creadigol drwy'r celfyddydau.

---

Yn ein strategaeth bresennol ar gyfer Cyfalaf, nodir bod angen mynd i'r afael â phroblemau hygyrchedd yn ein lleoliadau ar gyfer y celfyddydau. Hyd yn hyn, nid oes llawer wedi manteisio ar y cynllun. Byddwn yn ailystyried hyn gan roi sylw i'r wybodaeth a gawn drwy Gynlluniau Gweithredu Cyfrifoldeb Strategol Portffolio Celfyddydau Cymru.

Gweler uchod tudalen 18

Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau Portffolio Celfyddydau Cymru gyflwyno Cynlluniau Gweithredu Cydraddoldeb Strategol a bydd gofyn cydymffurfio â'r amod hwnnw er mwyn cael cyllid. Bydd hyn yn golygu ein bod yn deall yn well y sefyllfa bresennol gyda golwg ar gydraddoldeb a chyflogaeth yn y celfyddydau, y gwaith mae ein portffolio'n bwriadu ei wneud i fynd i'r afael â'r materion y maent wedi'u nodi a'r gwaith y bydd angen i ninnau ei wneud i gefnogi'r portffolio. Byddwn yn monitro cyflawni Cynlluniau Gweithredu'r Portffolio ac yn datblygu ac yn cyflawni rhaglenni wedi'u targedu yn ôl y gofyn. Byddwn yn cynnwys amodau penodol mewn cytundebau cyllido ar gyfer y Portffolio yn ôl y gofyn.

Gweler uchod tudalen 13

---

Byddwn yn archwilio ein meini prawf ar gyfer cyllid y Loteri, yn ogystal â'r canllawiau a'r amodau ar gyfer cael grant ac yn eu diwygio yn ôl y gofyn.

Gweler uchod tudalen 14

---

Rydym wedi cyhoeddi canllaw cydraddoldeb ac wedi diweddaru ein dogfen Lle Cyfartal. Mae'r ddwy ddogfen yn cynnig gwybodaeth, cyngor ac astudiaethau achos am bob agwedd ar gydraddoldeb a'r celfyddydau. Byddwn yn cryfhau proffil y cyhoeddiadau hyn ar draws y sector diwylliannol ac yn comisiynu rhagor o ganllawiau yn ôl y gofyn.

Gweler uchod tudalen 4

---

Rydym wrthi'n dechrau datblygu partneriaeth â chymuned y Sipsiwn a Theithwyr Roma yng Nghymru ac yn rhagweld y bydd prosiect wedi'i dargedu yn ystod blwyddyn 2 y cynllun hwn.

Dyfarnwyd cyllid yn ddiweddar i'r Romani Cultural & Arts Company i gomisiynu gwaith gan artistiaid sy'n Sipsiwn ac yn Deithwyr Roma ar gyfer ei arddangos a theithio. Byddwn yn parhau i drafod prosiectau posibl ac edrych tua'r dyfodol.

Rydym wedi creu partneriaeth â Heneiddio'n Dda yng Nghymru (o Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn), Gwanwyn ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru i roi cynllun ar y cyd ar waith - y Rhwydwaith Diwylliant sy'n Oed-gyfeillgar. Lansiwyd y rhwydwaith ddechrau 2017 ac mae'n dwyn ynghyd unigolion a sefydliadau o sector y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth o bob cwr o Gymru i rannu sgiliau, gwybodaeth ac arferion da. Bydd yn datblygu dulliau arloesol ac ymarferol o ymgysylltu'n well â phob hŷn a gwella ansawdd eu bywyd a'u lles. Mae gwefan wedi'i lansio'n ddiweddar a byddwn yn parhau i gydweithio â phartneriaid ar y datblygiad pwysig hwn:
http://www.agefriendlyculturenetwork.co.uk/afcn-welsh.html#welcome


# Atodiad 1

## Ystadegau am rywedd a chydraddoldeb

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y staff ar gyfartaledd yn chwarteri 1 a 2 2016/17 a 2017/18.

Mae canran y gweithwyr gwrywaidd wedi gostwng fymryn, sef 4% yn Ch1-2 2017/18 o'i chymharu ag yn yr un cyfnod yn 2016/17. Gwelwyd cynnydd cyfatebol yn nifer y gweithwyr benywaidd ar gyfartaledd, sef 1.33% yn ystod yr un cyfnod. Mae cymarebau rhywedd ac ethnigrwydd y sefydliad wedi gostwng fymryn eleni, ac mae hyn yn rhywbeth y dylid ei ystyried yn fanylach gan gymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael â'r diffyg cydbwysedd.

Yn un o gyfarfodydd diweddar y Cyngor, ar sail argymhelliad y Grŵp Monitro Cydraddoldeb, cytunwyd y byddem yn monitro ein hystadegau o'u cymharu â'r ffigurau cyfatebol ar gyfer Cymru Gyfan. Dangosir tabl gydag ystadegau cyfrifiad 2011 isod.




Mae data cyfrifiad 2011 ar gyfer Cymru yn dangos rhaniad 50/50 fwy neu lai rhwng gwrywod a benywod.

| Ardal | Yr holl breswylwyr arferol | Gwrywod | Benywod |
|---|---|---|---|
| gwlad: Cymru | 3,063,456 | 1,504,228 | 1,559,228 |
| | | 49.1% | 50.9% |

Mae'r tabl isod yn dangos union nifer y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn (CALl) ar bob Graddfa yng Nghyngor y Celfyddydau ar 31 Awst 2017, Union nifer y gweithwyr ar 31 Awst 2017 oedd 85, a nifer y gweithwyr CALl ar yr un dyddiad oedd 75.99.

| | B | C | D | E | F | PSG | Cyfanswm | Benywod | Gwrywod | B% | G% |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Celfyddydau (gan gynnwys Celfyddydau Rhyngwladol Cymru) | * | 5.42 | * | 3 | * | 0 | 12.7 | 8.7 | 4 | 68.5 | 31.5 |
| Prif Weithredwr Llywodraethu a Gwasanaethau Corff | * | 6 | 5 | * | 0 | * | 16 | 9 | 7 | 56 | 44 |
| Ymgysylltu ac Ymgyfranogi (gan gynnwys Dysgu Creadigol) | 3.19 | 5.18 | 5 | 3.18 | * | 0 | 18.18 | 13.18 | 5 | 72.5 | 27.5 |
| Menter ac Adfywio (gan gynnwys Noson Allan) | 3 | 4 | 0 | * | * | 0 | 10 | 7 | 3 | 70 | 30 |
| Cyllid | 3 | 0 | * | * | 0 | 0 | 6 | * | 4 | 33 | 67 |
| Buddsoddi a Chyllido | 3.5 | 6.11 | * | 0 | * | 0 | 13.11 | 9.11 | 4 | 69.5 | 30.5 |
| Cyfanswm | 16.97 | 27.34 | 14.5 | 12.1 | 4 | * | 75.99 | 48.99 | 27 | 64.5 | 35.5 |

Mae'r * yn dynodi enghreifftiau lle yr hepgorwyd y ffigurau oherwydd bod y niferoedd yn fach ac felly bod modd adnabod yr unigolion dan sylw.

Mae'r ffigurau yn y graff uchod yn cyfeirio at gyfartaleddau'r union nifer yn ystod Ch 1-2 2016-17 a 2017/18, ond mae'r ffigurau yn y tabl uchod yn dangos niferoedd cyfwerth ag amser llawn ar 31 Awst 2017. Dyma'r rheswm dros y gwahaniaethau yn y ffigurau yn y graff a'r tabl.

## Proffil oedran

| Cyngor y Celfyddydau | Benywod | Gwrywod |
|---|---|---|
| 16 - 19 | 0 | 0 |
| 20 - 24 | * | 0 |
| 25 - 29 | 3 | 0 |
| 30 - 34 | 6 | 5 |
| 35 - 39 | 14 | 4 |
| 40 - 44 | 9 | 7 |
| 45 - 49 | 11 | * |
| 50 - 54 | 7 | 4 |
| 55+ | 8 | 6 |

Mae'r * yn dynodi enghreifftiau lle yr hepgorwyd y ffigurau oherwydd bod y niferoedd yn fach ac felly bod modd adnabod yr unigolion dan sylw.

Ar gais aelodau'r Pwyllgor yn y cyfarfod diwethaf ym mis Mai, rydym bellach wedi cyflwyno proffiliau oedran i'r adroddiad hwn.

Mae proffil oedran ein staff ar 30 Medi yn dangos rhaniad gweddol gyfartal rhwng gwrywod a benywod rhwng 30 a 34 oed, ond gwahaniaeth sylweddol yn nifer y benywod rhwng 35 a 39 o'u cymharu â'u cymheiriaid gwrywaidd. Ymhlith aelodau benywaidd y staff, gwelir taeniad mwy gwastad byth ar draws pobl 40-55 oed. Gwelir rhaniad gweddol gyfartal hefyd rhwng gwrywod a benywod rhwng 40 a 44 a 55+ oed. Ond gwelir gwahaniaeth sylweddol rhwng 20 a 29 oed, lle nad oes dim gwrywod o gwbl. Mae rhaniad anwastad amlwg iawn rhwng y rheini sydd rhwng 35 a 39 oed a rhwng 45 a 49 oed.

Nid oes neb yn gweithio i'r cyngor sydd rhwng 16 ac 19 oed ond gallai cyflwyno cynllun prentisiaeth yn y dyfodol o bosibl fynd i'r afael â hyn.

## Ethnigrwydd

Mae'r tabl isod wedi'i seilio ar ganrannau cyfartalog y staff yn ystod Ch1 - 2 2016/17 a 2017/18.

| Cyngor y Celfyddydau | Cyf Ch1 2017/18 | Cyf Ch2 2017/18 |
|---|---:|---:|
| Asiaidd/Asiaidd Prydeinig Indiaidd | * | * |
| Du Caribïaidd | * | * |
| Cymysg Arall | * | 3.24% |
| Gwyn | 65.41% | 64.03% |
| Gwyn - Prydeinig | 8.22% | 8.63% |
| Gwyn Gwyddelig | * | * |
| Gwyn Cymreig | 7.53% | 7.55% |
| Heb gofnodi | 13.70% | 13.31% |

Mae'r * yn dynodi enghreifftiau lle yr hepgorwyd y ffigurau oherwydd bod y niferoedd yn fach ac felly bod modd adnabod yr unigolion dan sylw.

Cyflwynodd y Rheolwr Adnoddau Dynol ragor o gategorïau ethnigrwydd yn Cascade er mwyn adlewyrchu cyfansoddiad staff Cyngor y Celfyddydau'n fwy cywir. Gan mai dim ond yn ddiweddar y mae'r disgrifiadau ychwanegol wedi'u hychwanegu, nid ydym wedi gallu cymharu'r rhain yn gywir â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r opsiynau Asiaidd/Asiaidd Prydeinig Indiaidd, Du Caribïaidd, a Gwyn Cymreig bellach yn cael eu defnyddio gan staff, ond nid oedd modd adrodd am y rhain o'r blaen. Mae'n galonogol gweld bod nifer y rhai sydd heb gofnodi eu cenedligrwydd wedi haneru yn ystod Ch1 - 2 2017 o'i chymharu â'r un cyfnod yn 2016.

Rydym wedi gallu cymharu ein ffigurau ni ein hunain â rhai data cyfrifiad diweddaraf Cymru (2011). Mae'r tabl isod o'r cyfrifiad yn dangos y ffigurau lefel uchel ar gyfer y grwpiau ethnig.

| Cyfrifiad: Grŵp Ethnig | Gwlad: Cymru | |
|---|---|---|
| | nifer | % |
| Gwyn | 2,928,253 | 95.6 |
| Gwyn: o Loegr/Cymru/yr Alban/Gogledd Iwerddon/Prydain | 2,855,450 | 93.2 |
| Gwyn: Gwyddelig | 14,086 | 0.5 |
| Gwyn: Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | 2,785 | 0.1 |
| Gwyn: Gwyn Arall | 55,932 | 1.8 |
| Grwpiau ethnig cymysg /amlethnig | 31,521 | 1.0 |
| Grwpiau ethnig cymysg /amlethnig Gwyn a Du Caribïaidd | 11,099 | 0.4 |
| Grwpiau ethnig cymysg /amlethnig Gwyn a Du Affricanaidd | 4,424 | 0.1 |
| Grwpiau ethnig cymysg /amlethnig Gwyn ac Asiaidd | 9,019 | 0.3 |
| Grwpiau ethnig cymysg /amlethnig Cymysg Arall | 6,979 | 0.2 |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig | 70,128 | 2.3 |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig Indiaidd | 17,256 | 0.6 |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig Pacistanaidd | 12,229 | 0.4 |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig Bangladeshaidd | 10,687 | 0.3 |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig Tsieinïaidd | 13,638 | 0.4 |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig Asiaidd Arall | 16,318 | 0.5 |
| Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig | 18,276 | 0.6 |
| Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig: Affricanaidd | 11,887 | 0.4 |
| Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig: Caribïaidd | 3,809 | 0.1 |
| Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig: Du Arall | 2,580 | 0.1 |
| Grŵp ethnig arall | 15,278 | 0.5 |
| Grŵp ethnig arall Arabaidd | 9,615 | 0.3 |
| Grŵp ethnig arall Unrhyw grŵp ethnig arall | 5,663 | 0.2 |

Mae'n ddiddorol bod nifer gyfun staff Cyngor y Celfyddydau a gofnododd bod eu cefndir ethnig naill ai'n Wyn, Gwyn Prydeinig, Gwyn Gwyddelig, Gwyn Cymreig oddeutu 14% yn llai na'r ffigurau yn y cyfrifiad. (Mae Gwyn Affricanaidd, Asiaidd, Caribïaidd, Seisnig ac Albanaidd ar gael hefyd ond heb eu cofnodi ac felly nid yw'r rhain yn ymddangos yn y data). Serch hynny, mae ein ffigurau ni ein hunain yn dal i ddangos nifer o staff sydd heb gofnodi'r wybodaeth hon, er inni anfon sawl nodyn atgoffa. Mae'r categori 'heb gofnodi' wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn er mwyn dangos nifer y staff sydd heb gofnodi eu cefndir ethnig ar Cascade eto. Gall staff ddewis yr opsiwn 'Gwell gen i beidio â dweud'. Serch hynny, nid oes neb wedi dewis yr opsiwn hwn hyd yn hyn. Rydym wedi mynd ar drywydd staff yn barhaus er mwyn cael set gyflawn o ddata ond mae rhai aelodau o'r staff wedi dweud eu bod yn gyndyn o gofnodi'r data hyn am nad yw'n orfodol. Byddwn yn annog aelodau newydd o'r staff yn frwd i lenwi eu manylion yn ystod eu sesiynau ymsefydlu.

Yn y gorffennol, y farn gyffredinol oedd bod ein ffigurau ethnigrwydd yn eithriadol o anghytbwys a'u bod yn dangos "bwlch sylweddol". Serch hynny, o gymharu ein ffigurau ni ein hunain â ffigurau'r cyfrifiad ar

gyfer Cymru gyfan, nid yw hyn yn wir. Wedi dweud hynny, byddem fel sefydliad yn dal i fod yn awyddus i ddenu a chadw gweithlu mwy amrywiol er mwyn gwireddu dyheadau'r Cyngor yn y maes hwn. Mae hyn yn cynnwys cefndiroedd cymdeithasol yn ogystal ag ethnigrwydd. Mae Swyddogion Adnoddau Dynol blaenorol wedi cymryd nifer o gamau i geisio gweld sut y gallwn ddenu ymgeiswyr o gefndiroedd amrywiol, gan gynnwys cryfhau'r ymwybyddiaeth o'n sefydliad a'r cyfleoedd y gall eu cynnig. Cynhaliwyd trafodaethau ag aelodau o'r Grŵp Monitro Cydraddoldeb i ddeall yn well beth y gallwn ni ei wneud, fel sefydliad, i fynd i'r afael â'r darlun anghytbwys o'n ffigurau ethnigrwydd yn benodol, yn ogystal â'n hystadegau amrywiaeth yn fwy cyffredinol.

Roedd cynnig wedi'i wneud y dylid cynnal ymchwiliad cychwynnol, fel rhan o'n gweithdrefnau cydraddoldeb, i drefnu i sefydliad arbenigol wneud darn o ymchwil i archwilio a deall y darlun sydd gan bobl o Gyngor y Celfyddydau fel sefydliad, ac a yw hyn yn effeithio ar ein gallu i ddenu ceisiadau am swyddi gan bobl sydd â chefndir mwy amrywiol. Wrth ddechrau cymharu ein sefydliad â ffigurau cymharol Cymru Gyfan, efallai y bydd angen ailasesu'r hyn yr ydym am ei weld yn deillio o'r gwaith ymchwil ar ôl ei gomisiynu.

## Cenedligrwydd

Mae'r tabl isod yn dangos cenedligrwydd staff Cyngor y Celfyddydau (wedi'i seilio ar ffigurau cyfartalog y staff yn ystod Ch1 - 2 2016/17 a 2017/18). Efallai nad yw'n syndod mai'r categori Cymreig yw'r uchaf a Phrydeinig oddeutu hanner nifer y categori hwnnw. Gwelwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y staff nad oeddent wedi cofnodi eu cenedligrwydd yn 2017/18 ar ôl i'r tîm Adnoddau Dynol anfon nodyn atgoffa at bob aelod o'r staff i ddiweddaru eu cofnod. Nid yw canlyniadau cyfrifiad 2011 ar gyfer Cymru'n rhoi data inni y gallwn eu defnyddio i gymharu'n rhwydd. Yn y Cyfrifiad, gall preswylwyr ddewis nodi unrhyw nifer o hunaniaethau cenedlaethol, ond yn ein system Adnoddau Dynol ni, dim ond un y gellir ei chofnodi. Felly, nid oes modd cymharu'n ystyrlon.

| Cyngor y Celfyddydau | Cyf Ch1 2017/18 | Cyf Ch2 2017/18 |
|---|---|---|
| Prydeinig | 24 | 24 |
| Seisnig | 6 | 6 |
| Gwyddelig | * | * |
| O Ogledd Iwerddon | * | * |
| Arall | * | * |
| Cymreig | 51 | 50 |
| Heb gofnodi | 13 | 10 |

Mae'r * yn dynodi enghreifftiau lle yr hepgorwyd y ffigurau oherwydd bod y niferoedd yn fach ac felly bod modd adnabod yr unigolion dan sylw.

## Crefydd

Gallwn bellach adrodd am grefydd staff yn dilyn ymdrech y Rheolwr Adnoddau Dynol i gipio data am amrywiaeth yn Cascade. Anffyddiaeth a Christnogaeth yw'r categorïau lle y gwelir y niferoedd mwyaf, ond mae nifer sylweddol o staff heb gofnodi'r wybodaeth hon, er bod opsiwn "gwell gen i beidio â dweud" ar gael. Wedi dweud hynny, mae nifer y staff nad oeddent wedi cofnodi eu crefydd yn 2016/17 wedi gostwng bron hanner yn 2017/18.

Mae 12 opsiwn arall yn cael eu rhestru ar gyfer crefydd yn Cascade, ond gan nad oes yr un aelod o'r staff wedi'u defnyddio, nid yw'r rhain yn ymddangos yn yr adroddiad.

Mae'r siart isod yn dangos y data ar gyfer ein staff, ac mae'r tabl yn dangos data cyfrifiad 2011 ar gyfer Cymru. Mae tua 32% o'n staff ni ein hunain wedi cofnodi Cristnogaeth yn grefydd iddynt yn Ch1-2 2017/1,, ac mae 57.6% o boblogaeth Cymru wedi nodi eu bod yn Gristnogion.
Mae Hindŵ, Iddew, Mwslim a Sikh hefyd ar gael yn opsiynau yn ein system Adnoddau Dynol ac mae'r crefyddau hyn wedi'u tangynrychioli yn ein sefydliad.

Mae'r tabl isod wedi'i seilio ar gyfartaledd canran y staff yn ystod Ch1 -2 2016/17 a 2017/18.

| Cyngor y Celfyddydau | Cyf Ch1 2017/18 | Cyf Ch2 2017/18 |
|---|---|---|
| Anffyddiwr | 24.7% | 23.7% |
| Bwdhaeth | * | * |
| Catholig | * | * |
| Cristion | 31.5% | 32.7% |
| Arall | * | * |
| Gwell gen i beidio â dweud | 10.6% | 12.2% |
| Heb gofnodi | 28.1% | 25.9% |

Mae'r * yn dynodi enghreifftiau lle yr hepgorwyd y ffigurau oherwydd bod y niferoedd yn fach ac felly bod modd adnabod yr unigolion dan sylw.

| Cyfrifiad: Ardal | gwlad: Cymru | % |
|---|---|---|
| Pob categori Crefydd | 3,063,456 | |
| Cristion | 1,763,299 | 57.6% |
| Bwdhydd | 9,117 | 0.3% |
| Hindŵ | 10,434 | 0.3% |
| Iddew | 2,064 | 0.1% |
| Mwslim | 45,950 | 1.5% |
| Sikh | 2,962 | 0.1% |
| Crefydd Arall | 12,705 | 0.4% |
| Dim crefydd | 982,997 | 32.1% |
| Heb nodi crefydd | 233,928 | 7.6% |

## Cyfeiriadedd rhywiol

Nid adroddwyd am gyfeiriadedd rhywiol cyn hyn. Serch hynny, ers cynnal ymgyrch i gael gafael ar y data hyn, mae gennym well darlun bellach o gyfeiriadedd rhywiol ein staff. Yn ystod misoedd diwethaf, mae'r tîm Adnoddau Dynol wedi bod yn hysbysebu swyddi gwag gyda Stonewall Cymru, ond hyd yn hyn nid oes yr un ymgeisydd wedi dweud iddo weld yr hysbyseb ar wefan neu ar gyfryngau cymdeithasol Stonewall.

Mae'r tabl isod wedi'i seilio ar ffigurau cyfartalog y staff yn ystod Ch1 -2 2016/17 a 2017/18.

| Cyngor y Celfyddydau | Cyf Ch1 2017/18 | Cyf Ch2 2017/18 |
|---|---|---|
| Hoyw/Lesbiaidd | 3 | 3 |
| Deurywiol | 0 | * |
| Heterorywiol | 55 | 65 |
| Gwell gen i beidio â dweud | * | 4 |
| Heb gofnodi | 38 | 21 |


Mae'r * yn dynodi enghreifftiau lle yr hepgorwyd y ffigurau oherwydd bod y niferoedd yn fach ac felly bod modd adnabod yr unigolion dan sylw.

Nid oedd cyfrifiad 2011 yn gofyn i breswylwyr nodi eu cyfeiriadedd rhywiol, felly nid oes modd inni gymharu'r ffigurau.

## Anabledd

Mae'r tabl isod wedi'i seilio ar gyfartaledd canran y staff yn ystod Ch1 -2 2016/17 a 2017/18.

Mae rhyw 3.5% o staff Cyngor y Celfyddydau wedi nodi bod ganddynt anabledd. Mae hyn yn sylweddol is na'r 11.9% o boblogaeth Cymru sydd, yn ôl cyfrifiad 2011, yn cael eu cyfyngu'n sylweddol o ran eu gweithgareddau beunyddiol (gweler y tabl isod).



Er nad oes modd inni gymharu'n uniongyrchol â data'r cyfrifiad, mae tabl y Cyfrifiad isod yn rhestru'r gwahanol gategorïau o broblemau iechyd ac anableddau sy'n cyfyngu ar weithgareddau. Roedd 5.3% o'r boblogaeth a oedd rhwng 16 a 64 oed yn dweud bod ganddynt 'salwch tymor hir cyfyngol' a oedd yn cyfyngu'n sylweddol ar eu gweithgareddau beunyddiol, o'i chymharu â 3.6% o'n staff ni ein hunain sydd wedi nodi bod ganddynt anabledd yn Ch2.

| Ardal | gwlad: Cymru | % |
|---|---|---|
| Pob categori: Problem iechyd hirdymor neu anabledd | 3,063,456 | |
| Cyfyngu llawer ar weithgareddau beunyddiol | 364,318 | 11.9% |
| Cyfyngu ychydig ar weithgareddau beunyddiol | 331,537 | 10.8% |
| Nid yw'n cyfyngu weithgareddau beunyddiol | 2,367,601 | 77.3% |
| Cyfyngu llawer ar weithgareddau beunyddiol 16 - 64 oed | 162,156 | 5.3% |
| Cyfyngu ychydig ar weithgareddau beunyddiol 16 - 64 oed | 167,224 | 5.5% |
| Nid yw'n cyfyngu ar weithgareddau beunyddiol 16 - 64 oed | 1,615,236 | 52.7% |
| Iechyd da iawn | 1,428,697 | 46.6% |
| Iechyd da | 953,363 | 31.1% |
| Iechyd gweddol | 447,789 | 14.6% |
| Iechyd gwael | 178,222 | 5.8% |
| Iechyd gwael iawn | 55,385 | 1.8% |

## Hyd gwasanaeth

Mae'r tablau isod yn crynhoi'r sefyllfa, yn ôl hyd gwasanaeth, fel yr oedd ddiwedd mis Medi 2017. Nifer y gweithwyr ddiwedd mis Mai 2017 oedd 86:

| Blynyddoedd | 0-4 | 5-9 | 10-14 | 15-19 | 20-24 | 25+ | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Celfyddydau (gan gynnwys Celfyddydau Rhyngwladol Cymru) | * | 3 | 3 | 3 | 0 | 0 | 11 |
| Prif Weithredwr Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol | 8 | 5 | 3 | 0 | 0 | 0 | 16 |
| Ymgysylltu ac Ymgyfranogi (gan gynnwys Dysgu Creadigol) | 12 | * | 3 | 3 | * | * | 23 |
| Menter ac Adfywio (gan gynnwys Noson Allan) | * | * | * | * | * | * | 11 |
| Cyllid | * | * | * | 0 | * | * | 7 |
| Buddsoddi a Chyllido | 6 | 7 | 3 | * | 0 | 0 | 18 |
| Cyfanswm | 32 | 19 | 16 | 10 | 5 | 4 | 86 |

Mae'r * yn dynodi enghreifftiau lle yr hepgorwyd y ffigurau oherwydd bod y niferoedd yn fach ac felly bod modd adnabod yr unigolion dan sylw.

## Cyflog cyfartal

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn (CALl) benywaidd a gwrywaidd ar bob graddfa gyflog ar 31 Awst 2017. Mae'n fwy cywir defnyddio ffigur cyfwerth ag amser llawn oherwydd bod gan nifer o staff rolau sydd wedi'u rhannu rhwng gwahanol raddau. Mae'r tabl hefyd yn dangos cyfartaledd y cyflog ar bob graddfa a'r gwahaniaeth rhwng cyfartaledd cyflogau dynion a menywod ar bob gradd.

Mae Cyngor y Celfyddydau'n defnyddio system graddio cyflogau dryloyw nad yw'n gwahaniaethu ar sail rhyw ac sy'n cynnig tegwch i bawb.

| Gradd | Benywod (CALl) | Gwrywod (CALl) | Cyfanswm (CALl) | Cyfartaledd cyflog benywod | Cyfartaledd cyflog gwrywod | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| B | 13.97 | 3 | 16.97 | £24,262 | £24,500 | -£238<br>-0.97% |
| C | 16.34 | 11 | 27.34 | £31,595 | £31,386 | £209<br>0.67% |
| D | 7.5 | 7 | 14.5 | £38,528 | £39,057 | -£529<br>-1.35% |
| E | 8.18 | 4 | 12.18 | £48,795 | £49,500 | -£705<br>-1.42% |
| F | 3 | * | 4 | £70,600 | £70,600 | 0 |
| G | 0 | * | * | | £95,250 | n/a |
| Cyfanswm | **48.99** | **27** | **75.99** | | | |

Mae'r * yn dynodi enghreifftiau lle yr hepgorwyd y ffigurau oherwydd bod y niferoedd yn fach ac felly bod modd adnabod yr unigolion dan sylw.

Mae nifer o bwyntiau cynyddrannol yng Ngraddfeydd B i F, sy'n amrywio o 4 pwynt cynyddrannol rhwng gwaelod a brig y raddfa  ar gyfer Gradd B (sy'n golygu y byddai staff, mewn theori, yn camu ymlaen i'r gynyddran uchaf o fewn 4 blynedd), i 6 phwynt cynyddrannol yng Ngraddau E ac F. Dyfarnwyd cynyddrannau i staff cymwys ar y 1af o Awst 2017.

Mae'r tabl yn dangos mai ychydig iawn o wahaniaeth sydd rhwng cyflogau cyfartalog dynion a menywod ar bob gradd. Mae'r rhan fwyaf o'r staff ar bob gradd naill ai ar frig y radd honno neu ar bwynt cynyddrannol tua brig y radd.

Gan amlaf, bydd staff yn cael eu penodi ar bwynt isaf gradd, a byddent yn cael cynyddran bob blwyddyn (ar yr amod eu bod yn gwneud eu gwaith yn foddhaol). Felly, mae hyd cyfnod gwasanaeth yn hollbwysig wrth gymharu lefelau cyflogau dynion a menywod.

# Atodiad 2

Amcan Cydraddoldeb 2:

Data am y Gweithlu - Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru

| Cyflogaeth | 2015/16 | 2016/17 | % newid |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm gweithwyr gwrywaidd (gan gynnwys gwirfoddolwyr) | 2,332 | 2,151 | -7.8 |
| Cyfanswm gweithwyr benywaidd (gan gynnwys gwirfoddolwyr) | 3,238 | 3,071 | -5.2 |
| Cyfanswm nifer y gweithwyr gan gynnwys gwirfoddolwyr | 5,570 | 5,222 | -6.2 |
| Cyfanswm nifer y gweithwyr heb gynnwys gwirfoddolwyr | 4,217 | 3,937 | -6.6 |

Er mwyn peidio â datgelu pwy yw'r unigolion y cyfeirir atynt yn y tabl isod, mae'r ffigurau wedi'u hepgor mewn rhai celloedd ac mae * yn dangos lle mae hyn wedi digwydd. Y rheswm dros hyn yw bod celloedd mewn tabl sydd wedi'i seilio ar nifer fach o ymatebwyr yn fwy tebygol o ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol.

| Nodweddion Gwarchodedig Gweithwyr | 2015/16 | 2016/17 | % newid |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y gweithwyr anabl | 102 | 102 | 0 |
| Dynion anabl | 46 | 57 | 23.9 |
| Menywod anabl | 56 | 45 | -19.6 |
| % y gweithwyr sy'n anabl | 1.8 | 2.0 | |
| Cyfanswm nifer gweithwyr BME | 136 | 159 | 16.9 |
| Dynion BME | 68 | 75 | 10.3 |
| Menywod BME | 68 | 84 | 23.5 |
| % nifer y gweithwyr sy'n dod o grŵp BME | 2.4 | 3.0 | |
| Cyfanswm pobl Lesbiaidd, Hoyw neu Ddeurywiol | 120 | 134 | 11.7 |
| Nifer y gweithwyr: dynion hoyw | 82 | 95 | 15.9 |
| Nifer y gweithwyr: lesbiaid/menywod hoyw | 31 | 25 | -19.4 |
| Nifer y gweithwyr: dynion neu fenywod deurywiol | 7 | 14 | 100.0 |
| % y gweithwyr sy'n lesbiaid, yn hoyw neu'n ddeurywiol | 2.2 | 2.6 | |
| Cyfanswm Pobl Hŷn | 805 | 729 | -9.4 |
| Nifer y gweithwyr gwrywaidd: dynion hŷn (50+) | 387 | 302 | -22.0 |
| Nifer y gweithwyr benywaidd: menywod hŷn (50+) | 418 | 427 | 2.2 |
| % y gweithwyr sy'n 50+ | 14.5 | 14.0 | |
| Cyfanswm y Bobl sydd â chredoau crefyddol penodol | 157 | 202 | 28.7 |
| Nifer y gweithwyr gwrywaidd sydd â chredoau crefyddol penodol | 60 | 80 | 33.3 |
| Nifer y gweithwyr benywaidd sydd â chredoau crefyddol penodol | 97 | 122 | 25.8 |
| Fel % o'r gweithgarwch wedi'i dargedu | 2.8 | 3.9 | |
| Cyfanswm y Menywod sy'n feichiog neu ar gyfnod mamolaeth | 43 | 40 | -7.0 |
| % y gweithwyr sy'n feichiog neu ar gyfnod mamolaeth | 0.8 | 0.8 | |
| Cyfanswm pobl drawsryweddol | * | * | * |
| % y gweithwyr sy'n drawsryweddol | * | * | * |

Amcan Cydraddoldeb 3:

## Arolwg Proffil Celfyddydau Cymru - Byrddau Rheoli

| Bwrdd Rheoli | 2015/16 | 2016/17 | % newid |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y dynion ar fyrddau rheoli | 429 | 399 | -7.0 |
| Cyfanswm nifer y menywod ar fyrddau rheoli | 299 | 297 | -0.7 |
| Cyfanswm nifer yr aelodau ar fyrddau rheoli | 728 | 696 | -4.4 |

Er mwyn peidio â datgelu pwy yw'r unigolion y cyfeirir atynt yn y tabl isod, mae'r ffigurau wedi'u hepgor mewn rhai celloedd ac mae * yn dangos lle mae hyn wedi digwydd. Y rheswm dros hyn yw bod celloedd mewn tabl sydd wedi'i seilio ar nifer fach o ymatebwyr yn fwy tebygol o ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol.

| Nodweddion Gwarchodedig Byrddau Rheoli | 2015/16 | 2016/17 | % newid |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y gweithwyr anabl ar Fyrddau Rheoli/ Pwyllgorau Cynghori | 17 | 17 | 0 |
| Dynion anabl | 10 | 10 | 0.0 |
| Menywod anabl | 7 | 7 | 0.0 |
| % aelodau Byrddau Rheoli/Pwyllgorau Cynghori sy'n anabl | 2.3 | 2.4 | |
| Cyfanswm nifer y bobl o grŵp BME sydd ar Fwrdd Rheoli/ Pwyllgor Cynghori | 8 | 12 | 50.0 |
| ** Dynion BME | * | * | * |
| ** Menywod BME | * | * | * |
| % aelodau Byrddau Rheoli/Pwyllgorau Cynghori sy'n dod o grŵp BME | 1.1 | 1.7 | |
| Cyfanswm nifer y bobl sy'n Lesbiaid, yn Hoyw neu'n Ddeurywiol sydd ar Fwrdd Rheoli/Pwyllgor Cynghori | 29 | 36 | 24.1 |
| Dynion hoyw | 16 | 15 | -6.3 |
| Lesbiaid / Menywod Hoyw | 6 | 7 | 16.7 |
| Dynion neu Fenywod Deurywiol | 7 | 14 | 100.0 |
| % aelodau Byrddau Rheoli/Pwyllgorau Cynghori sy'n Lesbiaid, yn Hoyw neu'n Ddeurywiol | 4.0 | 5.2 | |
| Cyfanswm nifer y Bobl Hŷn (50+) sydd ar Fwrdd Rheoli/ Pwyllgor Cynghori | 360 | 377 | 4.7 |
| Dynion hŷn (50+) | 218 | 217 | -0.5 |
| Menywod hŷn (50+) | 142 | 160 | 12.7 |
| % aelodau Byrddau Rheoli/Pwyllgorau Cynghori sy'n cael eu categoreiddio'n Bobl Hŷn (50+) | 49.5 | 54.2 | |
| Cyfanswm nifer y bobl sydd â chredoau crefyddol penodol ar Fyrddau Rheoli/Pwyllgorau cynghori | 20 | 27 | 35.0 |
| Dynion â chredoau crefyddol penodol | 10 | 16 | 60.0 |
| Menywod â chredoau crefyddol penodol | 10 | 11 | 10.0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| % aelodau Byrddau Rheoli/Pwyllgorau Cynghori sydd â chredoau crefyddol penodol | 2.7 | 3.9 | |
| Cyfanswm nifer y menywod beichiog neu fenywod ar gyfnod mamolaeth sydd ar Fyrddau Rheoli/Pwyllgorau Cynghori | 5 | 6 | 20.0 |
| % aelodau Byrddau Rheoli/Pwyllgorau Cynghori sy'n feichiog neu ar gyfnod mamolaeth | 0.7 | 0.9 | |
| ** Cyfanswm nifer y Bobl Drawsryweddol sydd ar Fwrdd Rheoli/Pwyllgor Cynghori | 0 | * | * |
| % aelodau Byrddau Rheoli/Pwyllgorau Cynghori sy'n drawsryweddol | * | * | |

Amcan Cydraddoldeb 4:

## Mewnwelediad Cynulleidfa - Hynt

Cyfanswm nifer y tocynnau a brynwyd drwy gynllun Hynt yn ôl cyfeiriad cartref prynwr y tocyn.

| | 15/16 | 16/17 | % newid |
|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 32 | 99 | 209.4 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 74 | 175 | 136.5 |
| Caerffili | 138 | 316 | 129.0 |
| Caerdydd | 511 | 1362 | 166.5 |
| Sir Gaerfyrddin | 175 | 287 | 64.0 |
| Ceredigion | 412 | 614 | 49.0 |
| Conwy | 31 | 52 | 67.7 |
| Sir Ddinbych | 40 | 19 | -52.5 |
| Sir y Fflint | 271 | 119 | -56.1 |
| Gwynedd | 13 | 60 | 361.5 |
| Ynys Môn | 3 | 11 | 266.7 |
| Merthyr Tudful | 17 | 58 | 241.2 |
| Sir Fynwy | 22 | 159 | 622.7 |
| Castell-nedd Port Talbot | 81 | 227 | 180.2 |
| Casnewydd | 61 | 296 | 385.2 |
| Sir Benfro | 237 | 403 | 70.0 |
| Powys | 96 | 143 | 49.0 |
| Rhondda Cynon Taf | 168 | 505 | 200.6 |
| Abertawe | 575 | 910 | 58.3 |
| Tor-faen | 92 | 201 | 118.5 |
| Bro Morgannwg | 144 | 516 | 258.3 |
| Wrecsam | 37 | 9 | -75.7 |
| Cyfanswm | 3,230 | 6,541 | 102.5 |

## Arolwg PCC - mynychiadau mewn digwyddiadau wedi'u targedu

| | Arddangosfeydd | | Mynychiadau | | % newid | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2015/16 | 2016/17 | 2015/16 | 2016/17 | Digwyddiadau | Mynychiadau |
| Pobl Anabl | 3 | 12 | 10,354 | 47,725 | 300.0 | 360.9 |
| **Fel % o'r holl arddangosiadau a dargedwyd** | **1.6** | **22.2** | **18.8** | **20.9** | | |
| Pobl Dduon a Grwpiau Lleiafrifoedd Ethnig | 27 | 5 | 4,476 | 12,511 | -81.5 | 179.5 |
| **Fel % o'r holl arddangosiadau a dargedwyd** | **14.6** | **9.3** | **8.1** | **5.5** | | |
| Plant a phobl ifanc | 90 | 31 | 20,960 | 117,528 | -65.6 | 460.7 |
| **Fel % o'r holl arddangosiadau a dargedwyd** | **48.6** | **57.4** | **38.0** | **51.5** | | |
| Pobl hŷn (50+) | 4 | 6 | 7,436 | 50,247 | 50.0 | 575.7 |
| **Fel % o'r holl arddangosiadau a dargedwyd** | **2.2** | **11.1** | **13.5** | **22.0** | | |
| Pobl Lesbiaidd, Hoyw neu Ddeurywiol | 57 | 0 | 8,634 | 0 | -100.0 | -100.0 |
| **Fel % o'r holl arddangosiadau a dargedwyd** | **30.8** | **0.0** | **15.7** | **0.0** | | |
| Menywod beichiog a mamau newydd | 3 | 0 | 2,637 | 0 | -100.0 | -100.0 |
| **Fel % o'r holl arddangosiadau a dargedwyd** | **1.6** | **0.0** | **4.8** | **0.0** | | |
| Pobl â chredoau crefyddol penodol neu ddibenion eraill cysylltiedig â chrefydd | 1 | 0 | 670 | 0 | -100.0 | -100.0 |
| **Fel % o'r holl arddangosiadau a dargedwyd** | **0.5** | **0.0** | **1.2** | **0.0** | | |
| Pobl drawsryweddol sydd wedi cael ailbennu eu rhywedd neu wrthi'n cael eu hailbennu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 0.0 |
| **Fel % o'r holl arddangosiadau a dargedwyd** | **0.0** | **0.0** | **0.0** | **0.0** | | |
| **Cyfanswm yr holl arddangosiadau a dargedwyd** | **185** | **54** | **55,167** | **228,011** | **-70.8** | **313.3** |

| | Dangos Ffilmiau | | Mynychiadau | | % newid | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2015/16 | 2016/17 | 2015/16 | 2016/17 | Digwyddiadau | Mynychiadau |
| Pobl Anabl | 744 | 662 | 30,090 | 26,799 | -11.0 | -10.9 |
| **Fel % o'r holl Ffilmiau a Ddangoswyd a dargedwyd** | **30.0** | **20.8** | **34.5** | **20.1** | | |
| Pobl Dduon a Grwpiau Lleiafrifoedd Ethnig | 139 | 213 | 3,752 | 5,325 | 53.2 | 41.9 |
| **Fel % o'r holl Ffilmiau a Ddangoswyd a dargedwyd** | **5.6** | **6.7** | **4.3** | 4.0 | | |
| Plant a phobl ifanc | 491 | 1,682 | 22,030 | 76,141 | 242.6 | 245.6 |
| **Fel % o'r holl Ffilmiau a Ddangoswyd a dargedwyd** | **19.8** | **52.9** | **25.3** | 57.0 | | |
| Pobl hŷn (50+) | 224 | 96 | 12,974 | 5,410 | -57.1 | -58.3 |
| **Fel % o'r holl Ffilmiau a Ddangoswyd a dargedwyd** | **9.0** | **3.0** | **14.9** | 4.0 | | |
| Pobl Lesbiaidd, Hoyw neu Ddeurywiol | 428 | 49 | 3,804 | 2,038 | -88.6 | -46.4 |
| **Fel % o'r holl Ffilmiau a Ddangoswyd a dargedwyd** | **17.3** | **1.5** | **4.4** | 1.5 | | |
| Menywod beichiog a mamau newydd | 406 | 449 | 11,656 | 17,452 | 10.6 | 49.7 |
| **Fel % o'r holl Ffilmiau a Ddangoswyd a dargedwyd** | **16.4** | **14.1** | **13.4** | **13.1** | | |
| Pobl â chredoau crefyddol penodol neu ddibenion eraill cysylltiedig â chrefydd | 4 | 11 | 164 | 363 | 175.0 | 121.3 |
| **Fel % o'r holl Ffilmiau a Ddangoswyd a dargedwyd** | **0.2** | **0.3** | **0.2** | **0.3** | | |
| Pobl drawsryweddol sydd wedi cael ailbennu rhywedd neu wrthi'n cael eu hailbennu | 41 | 19 | 2,750 | 80 | -53.7 | -97.1 |
| **Fel % o'r holl Ffilmiau a Ddangoswyd a dargedwyd** | **1.7** | **0.6** | **3.2** | **0.1** | | |
| **Cyfanswm Ffilmiau a Ddangoswyd a dargedwyd** | **2,477** | **3,181** | **87,220** | **133,608** | **28.4** | **53.2** |

| | Perfformiadau gan Gwmnïau ar Daith | | Mynychiadau | | % newid | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2015/16 | 2016/17 | 2015/16 | 2016/17 | Digwyddiadau | Mynychiadau |
| Pobl Anabl | 46 | 23 | 13,900 | 10,467 | -50.0 | -23.4 |
| **Fel % o'r holl Berfformiadau a dargedwyd** | **7.4** | **3.4** | **15.4** | **14.2** | | |
| Pobl Dduon a Grwpiau Lleiafrifoedd Ethnig | 4 | 3 | 873 | 227 | -25.0 | -74.0 |
| **Fel % o'r holl Berfformiadau a dargedwyd** | **0.6** | **0.4** | **1.0** | **0.3** | | |
| Plant a phobl ifanc | 514 | 512 | 58,233 | 55,046 | -0.4 | -5.5 |
| **Fel % o'r holl Berfformiadau a dargedwyd** | **83.2** | **76.6** | **64.5** | **73.5** | | |
| Pobl hŷn (50+) | 36 | 103 | 16,461 | 7,634 | 186.1 | -53.6 |
| **Fel % o'r holl Berfformiadau a dargedwyd** | **5.8** | **15.4** | **18.2** | **10.2** | | |
| Pobl Lesbiaidd, Hoyw neu Ddeurywiol | 18 | 17 | 835 | 603 | -5.6 | -27.8 |
| **Fel % o'r holl Berfformiadau a dargedwyd** | **2.9** | **2.5** | **0.9** | **0.0** | | |
| Menywod beichiog a mamau newydd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 0.0 |
| **Fel % o'r holl Berfformiadau a dargedwyd** | **0.0** | **0.0** | **0.0** | **0.0** | | |
| Pobl â chredoau crefyddol penodol neu ddibenion eraill cysylltiedig â chrefydd | 0 | 10 | 0 | 760 | 100.0 | 100.0 |
| **Fel % o'r holl Berfformiadau a dargedwyd** | **0.0** | **1.5** | **0.0** | **1.0** | | |
| Pobl drawsryweddol sydd wedi cael ailbennu eu rhywedd neu wrthi'n cael eu hailbennu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 0.0 |
| **Fel % o'r holl Berfformiadau a dargedwyd** | **0.0** | **0.0** | **0.0** | **0.0** | | |
| **Cyfanswm Perfformiadau a dargedwyd** | **618** | **668** | **90,302** | **74,917** | **8.1** | **-17.0** |

| | Perfformiadau mewn Lleoliadau Cyflwyno | | Mynychiadau | | % newid | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2015/16 | 2016/17 | 2015/16 | 2016/17 | Digwyddiadau | Mynychiadau |
| Pobl Anabl | 82 | 94 | 5,853 | 7,818 | 14.6 | 33.6 |
| **Fel % o'r holl Berfformiadau a dargedwyd** | **132** | **19.1** | **7.2** | **10.3** | | |
| Pobl Dduon a Grwpiau Lleiafrifoedd Ethnig | 105 | 7 | 11,907 | 568 | -93.3 | -95.2 |
| **Fel % o'r holl Berfformiadau a dargedwyd** | **17.0** | **1.4** | **14.7** | **0.7** | | |
| Plant a phobl ifanc | 366 | 300 | 55,181 | 58,886 | -18.0 | 6.7 |
| **Fel % o'r holl Berfformiadau a dargedwyd** | **8.9** | **17.0** | **8.6** | **10.6** | | |
| Pobl hŷn (50+) | 55 | 84 | 6,982 | 8,058 | 52.7 | 15.4 |
| **Fel % o'r holl Berfformiadau a dargedwyd** | **8.9** | **17.0** | **8.6** | **10.6** | | |
| Pobl Lesbiaidd, Hoyw neu Ddeurywiol | 8 | 5 | 387 | 357 | -37.5 | -7.8 |
| **Fel % o'r holl Berfformiadau a dargedwyd** | **1.3** | **1.0** | **0.5** | **0.5** | | |
| Menywod beichiog a mamau newydd | 1 | 2 | 101 | 27 | 100.0 | -73.3 |
| **Fel % o'r holl Berfformiadau a dargedwyd** | **0.2** | **0.4** | **0.1** | **0.0** | | |
| Pobl â chredoau crefyddol penodol neu ddibenion eraill cysylltiedig â chrefydd | 2 | 0 | 495 | 0 | -100.0 | -100.0 |
| **Fel % o'r holl Berfformiadau a dargedwyd** | **0.0** | **0.0** | **0.0** | **1.0** | | |
| Pobl drawsryweddol sydd wedi cael ailbennu eu rhywedd neu wrthi'n cael eu hailbennu | 0 | 1 | 0 | 57 | 100.0 | 100.0 |
| **Fel % o'r holl Berfformiadau a dargedwyd** | **0.0** | **0.0** | **0.0** | **0.0** | | |
| Cyfanswm Perfformiadau a dargedwyd | 619 | 493 | 80,906 | 75,771 | -20.4 | -6.3 |

Amcan Cydraddoldeb 5:

## Arolwg PCC - Ymgyfranogi
## Plant a Phobl Ifanc

| | Sesiynau | | Mynychiadau | | % newid | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2015/16 | 2016/17 | 2015/16 | 2016/17 | Digwyddiadau | Mynychiadau |
| Pobl Anabl | 4,027 | 1,495 | 40,775 | 20,166 | -62.9 | -50.5 |
| **Fel % o'r Gweithgarwch wedi'i Dargedu** | **93.9** | **57.1** | **92.7** | **50.6** | | |
| Pobl Dduon a Grwpiau Lleiafrifoedd Ethnig | 136 | 812 | 1360 | 15,769 | 497.1 | 1059.5 |
| **Fel % o'r Gweithgarwch wedi'i Dargedu** | **3.2** | **31.0** | **3.1** | **39.6** | | |
| Pobl Lesbiaidd, Hoyw neu Ddeurywiol | 28 | 131 | 830 | 1,630 | 367.9 | 96.4 |
| **Fel % o'r Gweithgarwch wedi'i Dargedu** | **0.7** | **5.0** | **1.9** | **4.1** | | |
| Pobl drawsryweddol sydd wedi cael ailbennu eu r hywedd neu wrthi'n cael eu hailbennu | 14 | 106 | 104 | 1,585 | 657.1 | 1424.0 |
| **Fel % o'r Gweithgarwch wedi'i Dargedu** | **0.3** | **4.0** | **0.2** | **4.0** | | |
| Pobl â chredoau crefyddol penodol neu ddibenion eraill cysylltiedig â chrefydd | 49 | 0 | 649 | 0 | -100.0 | -100.0 |
| **Fel % o'r Gweithgarwch wedi'i Dargedu** | **1.1** | **0.0** | **1.5** | **0.0** | | |
| Menywod beichiog a mamau newydd | 36 | 76 | 254 | 690 | 111.1 | 171.7 |
| **Fel % o'r Gweithgarwch wedi'i Dargedu** | **0.8** | **2.9** | **0.6** | **1.7** | | |
| **Cyfanswm sesiynau wedi'u targedu** | **4,290** | **2,620** | **43,972** | **39,840** | **-38.9** | **-9.4** |
| **Sesiynau wedi'u targedu fel % o'r holl sesiynau ymgyfranogi i blant a phobl ifanc** | **10.2** | **6.9** | **6.9** | **6.3** | | |

## Cyfredinol

| | Sesiynau wedi'u targedu | | Mynychiadau mewn sesiynau wedi'u targedu | | % newid | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2015/16 | 2016/17 | 2015/16 | 2016/17 | Digwyddiadau | Mynychiadau |
| Pobl Anabl | 7,100 | 2,672 | 50,017 | 32,267 | -62.4 | -35.5 |
| **Fel % o'r Gweithgarwch wedi'i Dargedu** | **77.9** | **54.3** | **50.2** | **33.2** | | |
| Pobl Dduon a Grwpiau Lleiafrifoedd Ethnig | 181 | 537 | 18,307 | 39,939 | 196.7 | 118.2 |
| **Fel % o'r Gweithgarwch wedi'i Dargedu** | **2.0** | **10.9** | **18.4** | **41.1** | | |
| Pobl hŷn (50+) | 1,709 | 1,636 | 29,600 | 24,420 | -4.3 | -17.5 |
| **Fel % o'r Gweithgarwch wedi'i Dargedu** | **18.8** | **33.2** | **29.7** | **25.1** | | |
| Pobl Lesbiaidd, Hoyw neu Ddeurywiol | 1 | 11 | 16 | 113 | 1000.0 | 606.3 |
| **Fel % o'r Gweithgarwch wedi'i Dargedu** | **0.0** | **0.2** | **0.0** | **0.1** | | |
| Menywod beichiog a mamau newydd | 39 | 50 | 653 | 273 | 28.2 | -58.2 |
| **Fel % o'r Gweithgarwch wedi'i Dargedu** | **0.4** | **1.0** | **0.7** | **0.3** | | |
| Pobl sydd â Chredoau Crefyddol Penodol | 81 | 16 | 972 | 276 | -80.2 | -71.6 |
| **Fel % o'r Gweithgarwch wedi'i Dargedu** | **0.9** | **0.3** | **1.0** | **0.3** | | |
| Pobl drawsryweddol | 2 | 1 | 17 | 3 | -50.0 | -82.4 |
| **Fel % o'r Gweithgarwch wedi'i Dargedu** | **0.0** | **0.0** | **0.0** | **0.0** | | |
| **Cyfanswm sesiynau wedi'u targedu** | **9,113** | **4,923** | **99,582** | **97,291** | **-46.0** | **-2.3** |
| **Sesiynau wedi'u targedu fel % o gyfanswm y sesiynau cymryd rhan cyffredinol** | **30.9** | **18.9** | **19.9** | **20.7** | | |

# Atodiad 3

## Data'r Loteri

### Sefydliadau

| CyfrifID | 77 | 47 | 2 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Sefyllfa | Cymeradwywyd | Gwrthodwyd | Yn disgwyl penderfyniad | |
| SwmGrant_Swm | £1,117,896.00 | £0.00 | £0.00 | £1,117,896.00 |
| canolbwyntio ar ethnigrwydd Ydy | 3 | 1 | 0 | 4 |
| canolbwyntio ar anabledd Ydy | 7 | 0 | 0 | 7 |
| canolbwyntio ar bobl Hoyw/Lesbiaid Ydy | 3 | 1 | 0 | 4 |
| CyfriTarged Grŵp 1 | 29 | 19 | 1 | 49 |
| CyfriTarged Grŵp 2 | 3 | 5 | 0 | 8 |
| CyfriTarged Grŵp 3 | 0 | 4 | 0 | 4 |
| CyfriTarged Grŵp 4 | 5 | 9 | 0 | 14 |
| CyfriTarged Grŵp 5 | 4 | 15 | 0 | 19 |
| CyfriTarged Grŵp 6 | 1 | 2 | 0 | 3 |
| CyfriTarged Grŵp 7 | 1 | 2 | 0 | 3 |
| Swm Rheolwyr Gwrywaidd | 316 | 194 | 7 | 517 |
| Swm Rheolwyr Benywaidd | 340 | 218 | 14 | 572 |

### Unigolion

| | Cymeradwywyd | Gwrthodwyd | Yn disgwyl penderfyniad | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Rhywedd G | 26 | 21 | 3 | 50 |
| Rhywedd B | 17 | 24 | 7 | 48 |
| O dan 20 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 20-29 | 8 | 3 | 5 | 16 |
| 30-39 | 9 | 10 | 3 | 22 |
| 40-49 | 9 | 15 | 1 | 25 |
| 50-59 | 8 | 13 | 1 | 22 |
| Dros 60 | 8 | 3 | 0 | 11 |
| Oedran - Gwell gen i beidio â dweud | 1 | 1 | 0 | 2 |
| Wedi ysgaru | 3 | 4 | 1 | 8 |
| Priod/Partneriaeth Sifil | 14 | 18 | 0 | 32 |
| Arall | 6 | 6 | 0 | 12 |
| Perthynas - Gwell gen i beidio â dweud | 3 | 3 | 0 | 6 |
| Sengl | 17 | 14 | 8 | 39 |
| Deurywiol | 2 | 5 | 0 | 7 |
| Hoyw/Lesbiaidd | 7 | 2 | 1 | 10 |
| Heterorywiol neu Strêt | 27 | 34 | 8 | 69 |
| Cyfeiriadedd Rhywiol - Gwell gen i beidio a dweud | 6 | 3 | 0 | 9 |

Unigolion

## Cenedligrwydd

| Cenedligrwydd | Swm | Cymeradwywyd | Gwrthodwyd | Yn disgwyl penderfyniad |
|---|---|---|---|---|
| Americanaidd | £0.00 | 0 | 2 | 0 |
| Prydeinig | £25,669.00 | 12 | 17 | 2 |
| O’r Camerŵn | £0.00 | 0 | 0 | 1 |
| Deuol o Gymru / o'r Swistir | £640.00 | 1 | 0 | 0 |
| O Loegr | £9,087.00 | 2 | 1 | 1 |
| O Ffrainc | £0.00 | 0 | 1 | 0 |
| Hispanig | £0.00 | 0 | 1 | 0 |
| Gwyddelig | £3,000.00 | 1 | 2 | 0 |
| O'r Eidal | £29,728.00 | 2 | 0 | 0 |
| O Ogledd Iwerddon | £5,000.00 | 1 | 0 | 0 |
| O Bortiwgal | £0.00 | 0 | 0 | 1 |
| O'r Swistir | £5,000.00 | 1 | 0 | 0 |
| O Drinidad | £0.00 | 0 | 1 | 0 |
| Cymreig | £149,169.00 | 19 | 20 | 5 |
| Ewropeaidd o Gymru | £6,000.00 | 2 | 0 | 0 |
| O Gymru / O Lydaw | £1,500.00 | 1 | 0 | 0 |
| O Gymru /UDA | £2,900.00 | 1 | 0 | 0 |

## Crefydd/ Cred

| Crefydd/ Cred | Swm | Cymeradwywyd | Gwrthodwyd | Yn disgwyl penderfyniad |
|---|---|---|---|---|
| Agnostig | £10,000.00 | 2 | 0 | 0 |
| Bwdhydd | £2,900.00 | 1 | 1 | 0 |
| Cristion | £29,443.00 | 9 | 6 | 4 |
| Di-grefydd | £3,000.00 | 1 | 0 | 0 |
| Dim crefydd | £118,059.00 | 23 | 29 | 5 |
| Pagan | £0.00 | 0 | 0 | 1 |
| Ysbrydol Traws-grefydd | £25,000.00 | 1 | 0 | 0 |
| Pantheistig | £3,893.00 | 1 | 0 | 0 |
| Ddim am ddweud | £20,890.00 | 4 | 8 | 0 |
| Crynwr | £24,508.00 | 1 | 0 | 0 |
| Ysbrydol ond heb grefydd penodol | £0.00 | 0 | 1 | 0 |

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

www.celf.cymru